


Estyn

*Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad Blynyddol
## a Chyfrifon · 2009-2010

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD · GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Iechyd ar Waith · Health at Work



**Estyn** | **Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW**
**Ffôn: 029 2044 6446 Ffacs: 029 2044 6448**
**E-bost: ymholiadau@estyn.gov.uk**
**www.estyn.gov.uk**

# Pwy ydym ni...

Estyn yw'r Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel i Lywodraeth Cynulliad Cymru a dinasyddion Cymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

Ar 31 Ionawr 2010, roedd Estyn yn cyflogi 100 o aelodau staff, y mae 48 ohonynt yn AEM. Hefyd, fe wnaethom ategu ein cynhwysedd arolygu mewnol trwy gyflogi 18 o secondeion yn ystod 2009-2010. Rydym hefyd yn caffael ac yn hyfforddi arolygwyr ychwanegol, aseswyr cymheiriaid ac enwebeion sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd, i weithio fel rhan o dimau arolygu.

Dros 2009-2010, cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r arolygiadau o ysgolion a gynhelir gan sefydliadau ac arolygwyr annibynnol unigol sydd ar gontract gan Estyn. Mae rhai arolygwyr annibynnol ac arolygwyr ychwanegol yn cyflawni agweddau ar waith arolwg ar ran Estyn hefyd.

Mae ein prif swyddfa yng Nghaerdydd ac mae gennym swyddfa arall yn yr Wyddgrug, yng Ngogledd Cymru.

**Mae'r gair Estyn yn golygu ‘cyrraedd’, ‘ymestyn’ neu ‘ehangu’.**

# Beth rydym yn ei wneud...

Mae gennym ystod eang o gyfrifoldebau arolygu ac adrodd statudol, sy'n cynnwys arolygu'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant a ariennir yn gyhoeddus ledled Cymru.

Mae mwyafrif ein harolygiadau wedi'u seilio ar risg, sy'n ein galluogi i dargedu mwy o adnoddau at y darparwyr hynny y mae angen eu harolygu'n fanylach, a lleihau'r angen i arolygu perfformwyr cyson dda. Mae hunanarfarnu, gan ddefnyddio arweiniad Estyn, yn rhan allweddol o broses sicrhau ansawdd darparwyr sy'n nodi'u cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Gan ddefnyddio'r wybodaeth o adroddiadau hunanarfarnu fel man cychwyn, mae timau arolygu yn rhoi adborth ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, ansawdd yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir ac ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth. Cynhelir y broses arolygu mewn partneriaeth rhwng Estyn a'r darparwr, ac mae ffocws cyffredinol ar fodloni anghenion dysgwyr a chodi safonau.

Rydym hefyd yn cyfrannu at ddatblygu polisi addysg a dysgu gydol oes yng Nghymru drwy ein hadroddiadau cylch gwaith, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel ar themâu a gytunir gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Estyn hefyd yn chwarae rhan weithredol mewn amrywiaeth o fforymau a gweithgorau polisi ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, ac mae'n cynnal amryw gynadleddau rheolaidd ar feysydd i'w gwella.



## Yn 2009-2010, roedd Estyn yn gyfrifol am arolygu ac adrodd ar y canlynol:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; a
- darpariaeth cyflogaeth wedi'i chontractio yng Nghymru gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

# Cynnwys


## Beth yw cynnwys yr adroddiad hwn? 1

## Rhagair 2

## Adran 1: Adolygiad yn erbyn ein cynllun corfforaethol 4

**Amcan 1:** 5
Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth

**Amcan 2:** 11
Hyrwyddo gwelliant wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Amcan 3:** 16
Llywio datblygiad polisi cenedlaethol

**Amcan 4:** 22
Datblygu Estyn fel sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr o ddewis'

## Adran 2: Cyfrifon blynyddol 2009-2010 30

Sylwebaeth ar reolaeth 31

Adroddiad ar gyflogau 37

Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifo 42

Datganiad ar reolaeth fewnol 43

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 46

Cyfrifon Blynyddol Estyn 2009-2010 48

# Beth yw cynnwys yr adroddiad hwn?

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Estyn yn crynhoi ein cynnydd dros y deuddeng mis diwethaf wrth i ni weithio tuag at ein blaenoriaeth strategol, sef codi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Yn benodol, rydym yn adrodd ar gynnydd yn erbyn ein pedwar diben craidd fel y nodir yn ein Cynllun Corfforaethol 2009-2012, yn ogystal â darparu set lawn o'n cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2009-2010.

I gael rhagor o wybodaeth am Estyn, ewch i'n gwefan, **www.estyn.gov.uk**

# Rhagair

## Croeso i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Estyn sy'n nodi manylion am yr hyn rydym wedi'i gyflawni yn ystod 2009 i 2010.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn arall heriol a llwyddiannus i Estyn. Rydym wedi parhau i baratoi ar gyfer y cylch arolygu newydd, sy'n dechrau ym Medi 2010. Diolch i ymrwymiad parhaus a medrau holl staff Estyn, mae'r model arolygu newydd ar gyfer sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru wedi cael ei greu, ei brofi, ei ddiwygio a'i gwblhau. Datblygwyd gwaith ymgynghori'r llynedd yn drefniadau newydd sy'n bodloni'r gofynion a fynegwyd a'r canlyniad yw fframwaith arolygu cyffredin newydd, ynghyd ag arweiniad arolygu newydd ar gyfer pob sector. Rydym wedi gallu sicrhau y bydd mwy o bwyslais ar hunanarfarnu, y bydd dysgwyr yn cael eu cynnwys mwy mewn arolygiadau, y bydd mwy o bwyslais ar drafodaethau proffesiynol rhwng ymarferwyr ac arolygwyr, ac y bydd arolygwyr cymheiriaid yn chwarae rhan lawn mewn timau arolygu yn y dyfodol. Ac mae ein profion llwyddiannus o'r trefniadau arolygu newydd wedi rhoi adborth cadarnhaol ac adeiladol i ni gan randdeiliaid, yr ydym wedi gweithredu arnynt wrth gwblhau ein dogfennaeth arolygu.

Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud eleni i hyrwyddo ein hamcanion strategol eraill. Rydym wedi parhau i hyrwyddo gwelliant wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy ddigwyddiadau a chynadleddau proffil uchel - gan gynnwys cyfarfodydd y fforymau rhanddeiliaid a chynhadledd fawr yn canolbwyntio ar gyflawni rhagoriaeth mewn llythrennedd a rhifedd. Hefyd, rydym wedi darparu cymorth a chyngor i ddatblygu Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan sicrhau bod ein harweiniad arolygu a'n canllawiau hunanarfarnu yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn. Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth agos gyda sefydliadau eraill er mwyn hyrwyddo gwelliannau mewn sectorau mor amrywiol â Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant a dysgu yn y gwaith. Cymerwyd cam mawr ymlaen eleni yn sgil penodi Cydlynydd Arolygiaethau ar y Cyd, sydd ar secondiad am flwyddyn i hyrwyddo cydweithio agosach rhwng Estyn ac Arolygiaeth Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd hyn yn helpu cefnogi ein hymrwymiad i bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru.

Rydym wedi llywio datblygiad polisi cenedlaethol mewn nifer o ffyrdd pwysig. Fe wnaethom gynnal

seminar arall ar y cyd gyda staff APADGOS eleni yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol PAEM i drafod goblygiadau'r hyn yr ydym yn ei gyhoeddi ar gyfer llunio polisïau ac i nodi'r hyn y mae angen ei wneud nesaf mewn cylchoedd gwaith ar gyfer Estyn yn y dyfodol. O ran lledaenu 'arfer sy'n arwain y sector', rydym wedi cyhoeddi llawer o adroddiadau sy'n arddangos arfer orau ac yn cynnig offer i gefnogi hunanarfarnu. Mae ein pecyn canllawiau *Chwarae a Dysgu Gweithredol* ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen wedi dod yn un o'n cyhoeddiadau mwyaf poblogaidd y gofynnwyd amdano, ac mae ein llawlyfr arfer orau, *Beth sy'n gwneud darparwr hyfforddiant da?* wedi ffurfio'r sail ar gyfer dau weithdy sy'n cael eu cynnal gan Estyn ar gyfer darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru.

Yn y cefndir, rydym wedi bod yn hyrwyddo effeithlonrwydd Estyn fel sefydliad 'gwerth gorau', gan fynd ati i ailstrwythuro'n fewnol i ail-neilltuo rolau a chyfrifoldebau staff er mwyn bodloni gofynion ein ffyrdd newydd o gyflwyno'r busnes craidd er mwyn i ni allu bodloni heriau ein hamcanion allweddol eraill yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.





Ann Keane
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Adran 1:
# Adolygiad yn erbyn ein cynllun corfforaethol

# Amcan 1:

## Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 1 | Parhau i archwilio contractwyr arolygu ysgolion i sicrhau bod eu prosesau yn bodloni rheolaethau ansawdd ac yn cydymffurfio â thelerau eu contractau. | Cafodd pob contractwr arolygu ysgolion arfarniad archwilio yn ystod y flwyddyn ariannol, a dangosodd pob un welliant yn ansawdd eu prosesau arolygu ac fe wnaethant sicrhau Estyn eu bod yn cadw'n llawn at amodau eu contract ar gyfer arolygu. |
| 2 | Arfarnu gweithdrefnau arweiniad, hyfforddi a monitro ansawdd. | Eleni, cynhaliwyd arfarniad sylweddol o'r holl weithdrefnau arweiniad, hyfforddi a sicrhau ansawdd, gyda gwaith yn cael ei wneud ar baratoi dogfennau diwygiedig ar gyfer monitro ansawdd ac effeithiolrwydd arolygwyr a gyflogir gan Estyn ac arolygwyr annibynnol fel ei gilydd, yn ystod arolygiadau ac wrth ysgrifennu adroddiadau arolygu. Bydd y dogfennau hyn yn rhoi ystyriaeth lawn i drefniadau arolygu newydd Estyn ar gyfer y cylch arolygu nesaf. |
| 3 | Adolygu ac ailgyhoeddi arweiniad ar arolygu Cymraeg a dwyieithrwydd ar ein gwefan. | Gwnaed gwaith cynllunio i ddatblygu arweiniad Cymraeg newydd, yn unol â threfniadau arolygu Estyn 2010 a'r fframwaith arolygu cyffredin. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 2010-2011. |

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 4 | Paratoi ar gyfer rhoi'r fframwaith arolygu newydd ar waith, gan gynnwys cynnal arolygiadau peilot mewn tair ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd yn hydref 2009. | Yn ystod y flwyddyn ariannol, cynhaliwyd arolygiadau peilot mewn pum ysgol gynradd, dau leoliad meithrin nas cynhelir a thair ysgol uwchradd, yn ogystal ag ysgol annibynnol, ysgol arbennig annibynnol ac ysgol arbennig a gynhelir. Lluniwyd arweiniad a chanllawiau sector drafft i'w defnyddio yn ystod yr arolygiadau hyn, ac ar ôl cwblhau'r arolygiadau yn llwyddiannus a chyhoeddi'r adroddiadau arolygu, rhoddwyd ystyriaeth lawn i adborth gan y darparwyr a'r timau arolygu wrth gwblhau'r trefniadau ar gyfer Medi 2010 a thu hwnt. |
| 5 | Arolygu ac adrodd ar golegau arbennig annibynnol yng Nghymru, yn ogystal â'r sectorau cyfredol. | Eleni, fe wnaethom gynnal un arolygiad ar y cyd ag Ofsted o goleg arbennig annibynnol yng Nghymru. |
| 6 | Parhau i sicrhau, trwy fonitro trefniadau protocol presennol, bod arolygiadau o ysgolion sydd â darpariaeth breswyl yn cael eu cydlynu'n effeithiol gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). | Rydym wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd gydag Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru ac AGGCC i gydlynu arolygiadau o ysgolion sydd â darpariaeth breswyl. Rydym wedi parhau i rannu gwybodaeth gydag AGGCC cyn ein hymweliadau monitro a'n harolygiadau o'r ysgolion hyn. |
| 7 | Cyfuno'r arolygiadau ar wahân, cyfredol o wasanaethau addysg awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth ieuenctid. | Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom lunio dogfen arweiniad drafft sy'n cyfuno'r ddau fframwaith arolygu ac arbrofi â'r rhain yn llwyddiannus gydag arolygiadau ar y cyd o wasanaethau addysg awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth ieuenctid mewn dau awdurdod lleol. |

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 8 | Parhau i weithio gydag AGGCC, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), ar eu hymglymiad arfaethedig mewn arolygiadau o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol a'u partneriaid. | Rydym wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, CCAC, ac AGIC i helpu drafftio'r arweiniad i arolygu gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc (GAALlPPhI), i baratoi ar gyfer arolygiadau newydd 2010. O ran y fframwaith arolygu cyfredol, rydym wedi cynnwys arolygydd o Swyddfa Archwilio Cymru ym mhob arolygiad awdurdod lleol. Rydym yn cysylltu'n agos ag AGGCC cyn pob un o'r arolygiadau hyn. Bydd y trefniadau newydd yn bwydo i mewn i unrhyw drosolygon pellach o Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc. |
| 9 | Parhau i arolygu rhaglenni addysg dysgu oedolion yn y gymuned (DOG). | Yn ystod 2009-2010, fe wnaethom gwblhau'r cylch o arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned yn llwyddiannus. Rydym hefyd wedi cynllunio'r cylch arolygu newydd (2010-2016) sydd wedi'i seilio ar feysydd partneriaeth, fel yn y gorffennol. |
| 10 | Arbrofi â'r fframwaith arolygu newydd mewn tri o'r 14 arolygiad a chynnal ailarolygiadau o ddysgu yn y gwaith. | Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gynnal un arolygiad peilot o ddysgu yn y gwaith, yn ogystal â chwblhau ailarolygiadau a gynlluniwyd |

## Beth arall yr ydym wedi'i wneud...

1 Fe wnaethom drefnu cyfarfodydd diweddaru bob tymor gydag arolygwyr cofrestredig annibynnol (sy'n arwain timau arolygu ysgolion) yn ogystal â hyfforddiant diweddaru blynyddol ar gyfer contractwyr arolygu ac arolygwyr tîm.

2 Fe wnaethom barhau i arolygu darpariaeth addysg bellach (AB) fel rhan o'n cylch arolygu cyfredol yn ogystal â dau arolygiad arall ar y cyd o AB a dysgu yn y gwaith (DYYG), wrth arbrofi â threfniadau arolygu newydd.

3 Fe wnaethom gwblhau ein rhaglen o arolygiadau ysgolion annibynnol gan ddefnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin cyfredol, ac rydym wedi parhau i fonitro ansawdd arolygiadau gan gontractwyr ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion.

4 Fe wnaethom barhau i weithio gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i arolygu carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc yng Nghymru a sefydliadau gwarchodol yn Lloegr lle ceir nifer o garcharorion o Gymru.

5 Fe wnaethom ymuno â Gwasanaeth Prawf AEM, AGGCC ac AGIC yn y cyntaf o'r arolygiadau Tîm Troseddau Ieuenctid newydd - Arolygiadau Achosion Craidd (AAC).

6 Fe wnaethom gwblhau gwaith ar arolygiad thematig yn edrych ar baratoi athrawon dan hyfforddiant i addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer gweithio gydag eraill.

Astudiaeth achos

# Estyn 2010

## Mae Estyn wedi gwneud cryn dipyn o waith eleni i ychwanegu at y symud tuag at fframwaith arolygu newydd, a fydd yn cael ei roi ar waith ar gyfer arolygiadau o Fedi 2010.

Nod y fframwaith newydd yw ystyried y newidiadau sydd wedi digwydd yn y deng mlynedd diwethaf i'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a chydnabod a chefnogi gweithio mwy cysylltiedig ar draws gwahanol sectorau o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru - yn ogystal â sicrhau mai dysgwyr sydd wrth wraidd arolygu bob amser.

Yn dilyn gwaith ymgynghori helaeth a wnaed yn 2008-2009, eleni cafodd fframwaith arolygu cyffredin newydd ei drafod a'i ffurfio, ynghyd ag arweiniad arolygu newydd ar gyfer pob sector. Yn Hydref 2009 a Gwanwyn 2010, defnyddiwyd y rhain mewn cyfres o arolygiadau peilot ar draws nifer o sectorau. Canfuwyd bod y canlyniadau yn gadarnhaol, a rhoddwyd canmoliaeth arbennig i'r ffordd y mae'r fframwaith yn cynnwys dysgwyr mewn arolygiadau, ac yn rhoi pwyslais ar drafodaethau proffesiynol rhwng ymarferwyr ac arolygwyr.

Adroddwyd yn ôl i Estyn yr adborth gan ddarparwyr, dysgwyr, arolygwyr a rhanddeiliaid eraill, a dechreuodd gwaith ar gwblhau'r llawlyfrau mewn pryd ar gyfer eu cyhoeddi erbyn diwedd Ebrill 2010. Mae llawlyfrau arweiniad ar wahân i'w defnyddio gan y darparwyr eu hunain mewn hunanarfarnu/asesu yn cael eu cyhoeddi hefyd.

Mae prif nodweddion y fframwaith yn cynnwys:

- rôl ganolog newydd ar gyfer arolygwyr cymheiriaid fel aelod llawn o'r tîm arolygu;
- cyflwyno arolygiadau yn cael eu harwain gan Estyn ar gyfer pob sector dros y tair blynedd nesaf;
- mwy o bwyslais ar hunanarfarnu a hunanasesu;
- dull byrrach, symlach ar gyfer arolygu, gan sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael i gynnal arolygiadau dilynol a lledaenu arfer sy'n arwain y sector;
- disodli'r raddfa rifiadol bum bwynt flaenorol gyda phedair barn newydd: rhagorol, da, digonol ac anfoddhaol; a
- sefydlu tri chwestiwn allweddol a deg dangosydd ansawdd.

**Yn Haf 2010, bydd rhaglen hyfforddi lawn yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer AEM, arolygwyr annibynnol ac arolygwyr cymheiriaid i sicrhau eu bod yn gwbl wybodus am y trefniadau newydd.**

# Arolygiadau Estyn 2009-2010

| Sector | Nifer a gynlluniwyd | Nifer gwirioneddol | Sylw |
|---|---|---|---|
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir | 100 | 121 | Rhagorwyd ar gyfanswm y targed gwreiddiol i sicrhau bod pob un o'r sefydliadau hynny a gofrestrwyd cyn 31 Gorffennaf 2004 yn cael eu harolygu o fewn y cylch chwe blynedd. |
| Ysgolion | 332 | 325 | Cynhaliwyd llai o arolygiadau na'r bwriad, yn sgil cau ac uno ysgolion. |
| Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | 10 | 4 | Mae llai o arolygiadau nag a fwriadwyd yn adlewyrchu newidiadau yn nifer yr UCDau o fewn awdurdodau lleol. |
| Awdurdodau lleol (ALlau) | 12 | 12 | |
| Ôl-16 | 38 | 41 | Mae'r ffigur yn cynnwys arolygiadau ychwanegol a gynhaliwyd ar y cyd gyda Charchardai AEM. |

# Amcan 2:

## Hyrwyddo gwelliant wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 1 | Trefnu a chynnal digwyddiadau hyfforddi, digwyddiadau rhanbarthol a chynadleddau amrywiol. | Trefnodd Estyn gyfres o ddigwyddiadau llwyddiannus yn ystod blwyddyn ariannol 2009-2010. Cafodd Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ei lansio yn llwyddiannus ym mis Ionawr, yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, a chynhaliwyd cyfres o weithdai arfer orau ynddo. Mae fforymau rhanddeiliaid wedi cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn hefyd, gan gynnwys fforwm rhanddeiliaid Estyn ar gyfer ysgolion a gynhelir yn stadiwm SWALEC ym mis Mawrth, ac yn yr un mis, cynhaliwyd Fforwm Ysgolion Annibynnol yn Llandrindod. Roedd y cynadleddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys digwyddiad yn canolbwyntio ar gyflawni rhagoriaeth mewn llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 14 oed. |
| 2 | Parhau i gefnogi datblygu offer hunanarfarnu'r Cynulliad, y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY) a'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd (FfAE) ar gyfer darpariaeth ôl-16. | Mae Estyn wedi rhoi cymorth a chyngor i grŵp llywio FfEY y Cynulliad i ddatblygu'r Proffil Arfarnu Ysgolion (PAY) - sef pecyn canllawiau hunanarfarnu ar gyfer ysgolion. Rydym hefyd wedi gwneud yn siŵr bod popeth yn ein harweiniad arolygu ein hunain a'r canllawiau hunanarfarnu sydd i ddod yn cyd-fynd â'r FfEY a'r FfAE, yn ogystal â darparu hyfforddiant i arolygwyr fel eu bod yn gwbl wybodus am y ddau fframwaith a gweithgareddau cysylltiedig. Fe wnaethom gymryd rhan fawr yng nghynhadledd lansio'r FfEY ym mis Tachwedd. |

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 3 | Gweithio mewn partneriaeth gydag Ofsted i ddatblygu proses arolygu ar gyfer darpariaeth Llwybrau sy'n cael ei harwain gan ddarparwyr. | Fe wnaethom weithio mewn partneriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac Ofsted i gwblhau model arolygu ar gyfer Llwybrau sy'n cael eu Harwain gan Ddarparwyr. Roedd hyn yn cynnwys arolygiad peilot yn Norwich. Rydym wedi arolygu'r ddau gontract Llwybrau sy'n cael eu Harwain gan Ddarparwyr yng Nghymru ar ôl hynny. |
| 4 | Cynllunio a datblygu'r broses o arolygu Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru. | Rydym wedi cydweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac arolygiaethau eraill i ddatblygu Cyfrwng Hunanarchwilio a Gwella er mwyn gallu monitro gwaith Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant. Cytunwyd ar y dyddiadau ar gyfer arolygu gydag AGGCC a bydd Estyn yn lleoli dau AEM i'w cynnwys yn yr arolygiadau hyn. |
| 5 | Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'n Memorandwm Dealltwriaeth a gofyn am gael ymestyn y cytundeb hwn i gynnwys arolygiadau o wasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. | Mae'r Memorandwm Dealltwriaeth newydd yn cael ei ddatblygu, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cymryd rhan yn llawn, ochr yn ochr ag Estyn i greu'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer y gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc. |
| 6 | Parhau i weithio'n helaeth gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC) ac Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu gwella ansawdd dysgu yn y gwaith yng Nghymru. | Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda FfHCC ac APADGOS i hyrwyddo ansawdd cyflwyno dysgu yn y gwaith. Eleni, er enghraifft, fe wnaethom weithio ar gyhoeddiad newydd, "Beth sy'n gwneud darparwr hyfforddiant da?" a gweithio'n helaeth gydag APADGOS a FfHCC i gynllunio dau weithdy digwyddiad lansio, i'w cynnal yn Ebrill 2010. |

## Beth arall yr ydym wedi'i wneud...

1 Fe wnaethom gwblhau'r arolygiad o holl raglenni cymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru a gynlluniwyd i helpu pobl ddi-waith yn ôl i waith.

2 Fe wnaethom barhau i weithio gyda Gwasanaethau Prawf AEM ar Arolygiadau Achosion Craidd (arolygiadau Timau Troseddau Ieuenctid gynt) yn ogystal â gweithio gyda Charchardai EM, gan arwain ar arolygu dysgu troseddwyr yng ngharchardai Cymru (Abertawe eleni) ac arolygu carchardai ar y cyd yn Lloegr lle mae niferoedd sylweddol o garcharorion o Gymru.

3 Mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru, fe wnaethom helpu rhoi Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar waith, rhaglen sydd wedi'i chynllunio i alluogi awdurdodau lleol i archwilio iechyd y sefydliad corfforaethol a pherfformiad yr ystod o wasanaethau y mae'n eu darparu.



Astudiaeth achos

# Cynhadledd cydweithio ar gyfer gwella

## Cyflawni rhagoriaeth mewn llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 14 oed

Y gynhadledd hon, a gynhaliwyd yn stadiwm SWALEC yng Nghaerdydd, oedd y gyntaf o'i bath i gael ei threfnu rhwng Estyn, Sgiliau Sylfaenol Cymru a'r Is-adran Cwricwlwm ac Asesu yn Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Fel partneriaid sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo gwelliant mewn addysg yng Nghymru, gwahoddwyd cynrychiolwyr o awdurdodau lleol ac ysgolion i fynychu. Er mwyn sicrhau cymysgedd da o gyfranogwyr yn y gynhadledd, neilltuwyd dau le i awdurdodau lleol ar gyfer swyddogion o'r awdurdod sydd â chyfrifoldebau am lythrennedd, rhifedd a'r Cyfnod Sylfaen, a'r chwe lle arall ar gyfer staff ysgolion. Fe wnaethom ofyn iddynt gynnwys rhai cynrychiolwyr o ysgolion sy'n ei chael yn anodd helpu dysgwyr i wneud cynnydd, a chynrychiolwyr eraill o ysgolion sydd eisoes wedi sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol datblygedig a safonau uchel o gyflawniad disgyblion. Fe wnaeth yr amrywiaeth ddilynol o gyfranogwyr helpu hyrwyddo gwella ysgolion yn ogystal â chyfrannu cyfleoedd i rannu arfer dda yn fwy eang trwy rwydweithiau dysgu proffesiynol. Gweithiodd y strategaeth yn dda a mynychodd 196 o gynrychiolwyr o ysgolion, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg athrawon.

Canolbwyntiodd y gynhadledd ar gyflawni rhagoriaeth mewn llythrennedd a rhifedd ar gyfer dysgwyr o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 3. Fe wnaeth y rhaglen gynnwys sesiynau llawn a gweithdai a chynnig dewis o weithdai yr oedd y cynrychiolwyr yn ymddiddori fwyaf ynddynt.

**Cawsom gyfraniadau ysbrydoledig gan y prif siaradwyr ac fe gafwyd ymateb da iawn gan gynrychiolwyr.**

# Sylwadau, ymholiadau a chwynion

Fel sefydliad, rydym yn cymryd pob sylw, ymholiad a chwyn o ddifrif a byddwn yn ymateb i bob cwyn yn llawn, yn deg ac mor gyflym ag y bo modd. Yn 2008-2009, fe wnaethom ddelio â **chwech** o gŵynion.

Mae dyletswydd statudol gan Estyn hefyd i ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data mewn modd amserol.

## Ymateb i gŵynion:

**Cyfanswm nifer y cwynion a gafwyd yn 2009-2010:**

6

**Achwynwyr yn fodlon ag ymateb Estyn:**

Targed: 85%

Gwirioneddol: 83.33%[1]

**Ceisiadau a gafwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:**

7 o geisiadau

Amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau pob cais:

8.2 diwrnod gwaith
(Targed 20 diwrnod gwaith)

Cwblhawyd 100% yn brydlon

**Ceisiadau a gafwyd o dan y Ddeddf Diogelu Data**

100 o geisiadau

Amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau pob cais:

7.5 diwrnod gwaith
(Targed 20 diwrnod gwaith)

Cwblhawyd 99% yn brydlon[2]

Mae ceisiadau'n cynnwys ffurflenni arsylwi gwersi a ddosberthir o dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Y targed ar gyfer cwblhau'r ceisiadau hyn yw 20 diwrnod gwaith (28 diwrnod calendr) yn unol â'r targed ar gyfer ymateb i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

[1] Mewn un achos, nid oedd yr achwynydd yn fodlon ag ymateb Estyn ac aeth â'i gŵyn yn uniongyrchol at yr Ombwdsmon. Roedd ei gŵyn yn ymwneud â chamweinyddu ar ran Estyn yn y ffordd yr oeddem wedi rheoli ei gais am swydd arolygydd lleyg. Ni ddarbwyllwyd yr Ombwdsmon bod unrhyw gamweinyddu wedi bod ar ran Estyn. Fe wnaeth yr Ombwdsmon ystyried bod y pwyntiau a godwyd wedi cael eu trin a'u hesbonio'n gywir a theg gan y swyddog ymchwilio.

[2] Gohiriwyd un ymateb yn sgil absenoldeb dramor yr Arolygydd Cofrestredig a oedd â'r deunydd tystiolaeth angenrheidiol.

# Amcan 3:

## Llywio datblygiad polisi cenedlaethol

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 1 | Parhau i weithio gydag APADGOS, yr Adran ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol ac adrannau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu deddfwriaeth fwy cydlynus i gefnogi gweithio mewn partneriaeth gydag arolygiaethau, archwilwyr, rheoleiddwyr ac asiantaethau eraill. | Eleni, fe wnaethom benodi Cydlynydd Arolygiaethau ar y Cyd / Rheolwr Prosiect, wedi'i secondio am flwyddyn i hyrwyddo'r cydweithio parhaus rhwng Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru. Fe wnaethom hefyd sicrhau, trwy drefniadau protocol presennol, bod yr arolygiadau o ysgolion sydd â darpariaeth breswyl yn cael eu cydlynu gan Estyn ac AGGCC fel ei gilydd, a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gydag AGGCC mewn perthynas ag arolygu lleoliadau'r blynyddoedd cynnar nas cynhelir. |
| 2 | Trafod cyflwyno'r fframwaith arolygu newydd a'i roi ar waith. | Trwy gyswllt gyda rhanddeiliaid, darparwyr ac adrannau eraill y llywodraeth, fe wnaethom allu paratoi llawlyfrau arweiniad effeithiol i'w defnyddio mewn arolygiadau peilot, a defnyddio profiad o'r rhain i gwblhau'r fframwaith arolygu newydd, a llawlyfrau a chanllawiau arweiniad cysylltiedig, i'w defnyddio ar draws pob sector o Fedi 2010 ymlaen. |
| 3 | Uchafu'r rôl y gall gweithgarwch arolygu ei chwarae yng nghyd-destun ehangach deddfwriaeth, polisi, fframweithiau perfformiad ac atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. | Rydym wedi gweithio'n effeithiol gydag adran Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol LlCC ar ddatblygu fframwaith perfformiad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. |

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 4 | Cymryd rhan mewn ystod eang o bwyllgorau, gweithgorau a grwpiau ymgynghorol. | Cyfrannodd ein staff at dros 40 o weithgorau cenedlaethol neu grwpiau ymgynghorol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. |
| 5 | Darparu cyngor ac adroddiadau cylch gwaith ar 17 blaenoriaeth polisi. | Er i ddwy eitem gael eu canslo yn dilyn cyhoeddi cylch gwaith y flwyddyn, mae pob un o eitemau'r cylch gwaith sy'n weddill wedi cael eu cyhoeddi neu ar fin cael eu cyhoeddi o fewn graddfeydd amser y cytunwyd arnynt gydag adrannau perthnasol y Cynulliad. At ei gilydd, yn ystod y flwyddyn ariannol, cyhoeddwyd 18 o eitemau'r cylch gwaith (yn cynnwys rhai o eitemau cylch gwaith y flwyddyn flaenorol) ac mae'r rhain wedi'u rhestru ar dudalen 18. |

## Beth arall yr ydym wedi'i wneud...

1 Rydym wedi gweithio'n agos gydag APADGOS i ddatblygu dull mwy strategol ar gyfer cyngor cylch gwaith.

2 Rydym wedi cydweithio gydag APADGOS a Sgiliau Sylfaenol Cymru i gynnal Cynhadledd Cydweithio ar gyfer Gwella o dan y thema Cyflawni Rhagoriaeth mewn llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 14 oed.

3 Rydym wedi sicrhau ein bod yn cynnwys arolygydd o Swyddfa Archwilio Cymru ym mhob arolygiad o wasanaethau addysg awdurdodau lleol.

4 Rydym wedi gweithio gydag AGGCC ac arolygiaethau eraill i sicrhau bod arolygiadau o effeithiolrwydd gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc (PPPhI) yn cael eu cydlynu'n effeithiol.

5 Rydym wedi parhau i ddarparu ystod o gyngor ad hoc a chymorth parhaus, gan gynnwys ymateb i nifer o ymgynghoriadau cenedlaethol.

# Adroddiadau cylch gwaith

## Wrth ymateb i gylch gwaith blynyddol y Gweinidog yn 2009-2010, fe wnaethom gyhoeddi 18 o adroddiadau ar y testunau canlynol:

Roedd pob un o'r 18 adroddiad a gyhoeddwyd yn 2009-2010 (100%) o fewn y graddfeydd amser y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

| | |
|---|---|
| Arfarnu graddau ac effaith yr ailfodelu ar ddysgu a'r gweithlu ysgolion | 06/04/2009 |
| Effaith 'cyllid datgloi'r potensial' ar hyrwyddo'r defnydd o ysgolion arbennig fel canolfannau adnoddau â ffocws cymunedol | 07/04/2009 |
| Bwyd a ffitrwydd mewn ysgolion: y wybodaeth ddiweddaraf | 08/04/2009 |
| Ymglymiad effeithiol rhieni mewn ysgolion | 16/04/2009 |
| Awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n achosi pryder | 06/05/2009 |
| Arfarniad o ansawdd a gwerth yr addysg a'r hyfforddiant a ariennir trwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) | 28/05/2009 |
| Effaith polisïau cydraddoldeb hiliol ysgolion | 29/05/2009 |
| Arfer orau mewn mathemateg ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 7 oed | 03/06/2009 |
| Gwybodaeth reoli mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol | 10/06/2009 |
| Gwrando ar y gymuned: Pa mor dda y mae darparwyr yn canfod anghenion dysgu oedolion yn eu cymunedau lleol? | 01/07/2009 |
| Gwella ieithoedd tramor modern yn ysgolion uwchradd Cymru | 03/07/2009 |
| Effaith Rhagori 2008-2009 | 13/07/2009 |
| Pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed sydd ag anghenion o ran caffael yr iaith Saesneg? | 28/07/2009 |
| Chwarae a dysgu gweithredol - pecyn canllawiau ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen | 29/09/2009 |
| Cymorth awdurdodau lleol ar gyfer addysg plant gweithwyr mudol | 20/10/2009 |
| Mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion | 13/01/2010 |
| Beth sy'n gwneud darparwr hyfforddiant da? | 23/03/2010 |
| Arfarniad o'r trefniadau i sicrhau cysondeb asesiadau athrawon yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 | 25/03/2010 |

Astudiaeth achos

# Chwarae a dysgu gweithredol - pecyn canllawiau ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen

Ym Medi 2009, cyhoeddodd Estyn ei adroddiad cylch gwaith ar *Chwarae a dysgu gweithredol - pecyn canllawiau ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen.*

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol i athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, ac mae'n defnyddio llawer o astudiaethau achos lliwgar i amlygu arfer dda.

Mae'r ddogfen yn amlinellu wyth cwestiwn a gynlluniwyd i helpu athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth i gymryd trosolwg o'u darpariaeth gyfredol ac adolygu pa mor dda y maent yn cynllunio, yn cyflwyno ac yn asesu dysgu yn eu hysgolion ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae cwestiwn 4 yn gofyn "A yw ymarferwyr yn cynllunio'r cwricwlwm a'r amgylchedd i alluogi plant i fod yn ddysgwyr gweithredol?" Mae'r cwestiynau atodol wedyn yn tywys y darllenydd i ystyried pa mor dda y gellir trefnu'r adnoddau, yr amser a'r gofod i gyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer plant. Mae'r astudiaethau achos yn cynnig disgrifiad manwl o arfer gyffrous ac effeithiol i helpu ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynglŷn â sut i wella neu ymestyn ein harfer.

Trwy gydol yr adroddiad, mae enghreifftiau o sut mae ysgolion yng Nghymru wedi cymhwyso dull arloesol yn llwyddiannus ar gyfer gweithgareddau dysgu yn seiliedig ar chwarae. Mae'r dulliau hyn yn amrywio o gyflwyno chwarae rôl wedi'i seilio ar Y Tri Mochyn Bach, i ymweld â gorsaf dân leol i archwilio sefyllfaoedd argyfwng, i blannu a thrin rhandir yn yr awyr agored.




Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar ein gwefan ar 29 Medi 2009. Argraffwyd copïau caled ar bapur wedi'i ailgylchu a'u dosbarthu i bob un o ddarparwyr y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion a lleoliadau meithrin nas cynhelir. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn. Dangoswyd diddordeb mewn cael mwy o gopïau o *Chwarae a Dysgu Gweithredol*, nid yn unig gan fyfyrwyr, athrawon ac awdurdodau lleol yng Nghymru, ond o bob cwr o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae'n parhau i fod yn un o'r cyhoeddiadau mwyaf poblogaidd y gofynnir amdano.

## Astudiaeth achos

# Beth sy'n gwneud darparwr hyfforddiant da?

Ym Mawrth 2010, ar y cyd ag Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, fe wnaethom gyhoeddi *Beth sy'n gwneud darparwr hyfforddiant da?*, sef llawlyfr arfer orau ar gyfer y sector dysgu yn y gwaith.

Mae Beth sy'n gwneud darparwr hyfforddiant da? yn defnyddio cyfoeth o brofiad a thystiolaeth AEM i ddarparu arweiniad, argymhellion ac astudiaethau achos sy'n arddangos arfer dda. Y bwriad oedd rhoi cyfle i ddarllenwyr y llawlyfr ddilyn taith y dysgwr, o recriwtio i gyflawniad a dilyniant.

Mae tystiolaeth o arolygiadau o'r sector hwn yn dangos, dros y chwe blynedd diwethaf, bod safonau yn parhau i fod yn anghyson ar draws darparwyr, gyda llawer ohonynt dim ond yn cyflawni graddau boddhaol o hyd. Y nod felly yw bod darparwyr yn cymryd y cyfle i ddefnyddio'r llawlyfr fel canllaw i wella a chodi safonau yn y sector dysgu yn y gwaith.

Mae'r llawlyfr yn cynnwys astudiaethau achos o nifer o ddarparwyr ledled Cymru, gan gynnwys:

- Coleg Menai;
- Hyfforddiant Gwynedd;
- Hyfforddiant Môn;
- Sport Train Wales;
- Learnkit;
- Coleg Iâl;
- Coleg Llandrillo;
- Gweithlu Cymru;
- Coleg Gorseinon; a
- Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys.

Lansiwyd y cyhoeddiad ar ein gwefan ar 23 Mawrth 2010. Yn dilyn hyn, fe aethom ymlaen â'r trefniadau ar gyfer dau weithdy i bob darparwr dysgu yng Nghymru ar ddefnyddio'r llawlyfr fel cyfrwng ar gyfer hunanddatblygiad parhaus a rhoi arfer orau ar waith. Cynhaliwyd y rhain yn Ebrill 2010.

## Arolygiadau ac adroddiadau arolygu sy'n bodloni safonau ansawdd Estyn

| | Canran targed | Canran gwirioneddol | Sylw |
|---|---|---|---|
| Arolygiadau wedi'u contractio'n allanol | 98% | 100% | |
| Adroddiadau wedi'u contractio'n allanol | 98% | 96% | Methodd un adroddiad arolygu cynradd fodloni trothwy ansawdd Estyn. Ysgrifennodd Estyn at yr Arolygydd Cofrestredig (ACof) i'w gynghori bod angen gwella rhai agweddau ar ysgrifennu adroddiadau. Byddwn yn monitro adroddiadau a gaiff eu llunio yn y dyfodol gan yr ACof dan sylw. |
| Arolygiadau wedi'u harwain gan Estyn | 99% | 100% | |

## Canran yr arolygiadau a gafodd eu monitro'n uniongyrchol

| | Canran targed | Canran gwirioneddol | Sylw |
|---|---|---|---|
| Arolygiadau wedi'u harwain gan Estyn | 20% | 20% | |
| Arolygiadau wedi'u contractio'n allanol (ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion) | 20% | 22% | |
| Arolygiadau wedi'u contractio'n allanol (meithrinfeydd nas cynhelir) | 13% | 11% | Yn ystod y flwyddyn, carfan fechan yn unig oedd o arolygwyr, ac fe gafodd pob un o'r rhain eu monitro o leiaf unwaith. Oherwydd bod eu perfformiad yn foddhaol, fe wnaethom leihau graddau'r monitro mewn blwyddyn. |

# Amcan 4:

## Datblygu Estyn fel sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr o ddewis'

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 1 | Parhau i ddarparu rheolaethau a safonau cyson ar gyfer ein harferion caffael, gan wneud mwy o ddefnydd o e-gaffael yn enwedig mewn perthynas â chontractau arolygu, gan helpu lleihau costau a lleihau effaith amgylcheddol systemau papur. | Mae gan Estyn weithdrefnau ar waith i gynnal rheolaeth gyson o'n harfer gaffael, gan gynnwys swyddog cydymffurfio Estyn sy'n rhoi cyngor ar bob un o'r ymarferion caffael. Cynhaliwyd pob un o'r arolygiadau ysgol wedi'u contractio trwy e-dendro yn ystod y flwyddyn, ac mae cynlluniau yn yr arfaeth i ymestyn hyn i bob contract arolygu y flwyddyn nesaf. |
| 2 | Gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) i gwblhau adolygiad o'r cytundebau lefel gwasanaeth sydd gennym gyda nhw. | Fe wnaethom adolygu ein cytundebau lefel gwasanaeth (CLG) gyda LlCC a chytuno ar CLGau diwygiedig ar gyfer Gwasanaethau Ystadegol ac Adnoddau Dynol. Yn dilyn rhoi ein system ariannol annibynnol ein hunain ar waith, fe wnaethom hefyd gytuno gyda LlCC i roi'r gorau i'r CLG ar gyfer Cyllid a Thaliadau. |
| 3 | Gweithio mewn partneriaeth gyda staff ac undebau i fynd i'r afael â'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP), a rhoi cynllun gweithredu tair blynedd ar waith. | Datblygodd y Gweithgor Buddsoddwyr mewn Pobl gynllun gweithredu i sicrhau bod Estyn yn mynd i'r afael â phob un o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Asesu BmP. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r undebau i sicrhau ein bod yn symud yn hyderus tuag at ein hailachrediad yn 2011. |

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 4 | Parhau i feincnodi ein perfformiad yn erbyn safonau cenedlaethol pellach fel y Safon Iechyd Corfforaethol, Safon y Ddraig Werdd ar gyfer cynaliadwyedd a'r arolwg ymgysylltu ar draws y gwasanaeth sifil. | Rydym yn datblygu polisïau a fydd yn ein galluogi i gadw a mynd ati i wella ein lefel achredu yn erbyn y Safon Iechyd Corfforaethol a Safon y Ddraig Werdd. Fe wnaethom gynnal Arolwg Safonau Rheoli'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2009 i'n galluogi i gael data cymharol tair blynedd a byddwn yn cymryd rhan yn arolwg ymgysylltu'r gwasanaeth sifil ym Medi 2010. |
| 5 | Parhau i adolygu ein cynllun gweithredu amgylcheddol gan sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei ymgorffori'n gadarn ar draws y sefydliad. | Rydym yn parhau i ymgorffori cynaliadwyedd o fewn Estyn ac yn adeiladu ein hymrwymiad i Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Fe wnaethom benodi Swyddog Arweiniol ar gyfer Cynaliadwyedd yn ystod y flwyddyn ac fe wnaethom barhau i roi ein cynllun gweithredu amgylcheddol ar waith. Roedd targedau'r cynllun gweithredu yn cynnwys ymrwymiad i leihau ein hôl-troed carbon, er enghraifft trwy drefniadau diwygiedig ar gyfer llogi ceir a lleihau teithio ymhlith staff. Rydym hefyd wedi ymrwymo i leihau'r defnydd o bapur yn y swyddfa. Mae hyn wedi cael ei gynorthwyo gan ymdrech Estyn i gyhoeddi adroddiadau a chyhoeddiadau allweddol ar-lein ac i leihau'r copïau caled sy'n cael eu cynhyrchu. |
| 6 | Cynyddu ein cynhwysedd arolygu trwy recriwtio mwy o arolygwyr i baratoi ar gyfer rhoi'r fframwaith arolygu newydd ar waith a chael staff TGCh arbenigol i gefnogi rhoi ein strategaeth TGCh ar waith yn barhaus. | Yn sgil ymgyrch recriwtio allanol yn haf 2009, fe wnaethom benodi wyth AEM i ymestyn ein cynhwysedd arolygu. Fe wnaethom gyflogi rheolwr prosiectau tymor byr i helpu rhoi ein strategaeth TGCh ar waith ac rydym wedi parhau i weithio gyda chyflenwyr allweddol i gefnogi a datblygu ein systemau busnes craidd. |

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 7 | Adolygu ein cynlluniau cydraddoldeb presennol, cyn y ddeddfwriaeth newydd, a gweithio tuag at ddatblygu un cynllun cydraddoldeb pan fydd dyletswyddau cyrff cyhoeddus wedi cael eu diffinio'n gliriach yn y ddeddfwriaeth. | Datblygwyd adroddiadau cynnydd blynyddol yn ystod y flwyddyn yn egluro sut rydym wedi rhoi ein cynlluniau rhyw, ethnigrwydd ac anabledd a chydraddoldeb anabledd ar waith. Fe wnaethom fonitro cynnydd y Mesur Cydraddoldeb trwy San Steffan a phan fydd y dyletswyddau wedi cael eu hegluro, byddwn yn datblygu un cynllun cydraddoldeb. |
| 8 | Parhau i ymgynghori gyda staff ar ddarpariaethau pellach ar bolisi gweithio hyblyg, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gweithio gartref. | Fe wnaethom ymgynghori'n eang gyda staff i ddatblygu ein Polisi Gweithio Hyblyg cyn cytuno arno gyda'n cydweithwyr Undeb Llafur yn yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) a Chymdeithas Gweision Sifil yr Adran Gyntaf (FDA) ym Medi 2009. Fe wnaethom weithio'n agos gyda staff i gynllunio cyflwyno gweithio gartref ac arbrofi gyda chynllun gweithio gartref o Hydref 2009, cyn gwahodd ceisiadau am weithio gartref o Fawrth 2010. |
| 9 | Gwella ein perthnasoedd gweithio gyda'r undebau llafur trwy adolygu ein trefniant ar gyfer cydweithio a datblygu cytundeb amser cyfleusterau. | Rydym wedi adolygu'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'r Undebau. Rydym wedi sefydlu dwy lefel o ymgysylltu ffurfiol gyda nhw: yn strategol lle mae uwch reolwyr yn cyfarfod â'r undebau ddwywaith y flwyddyn; a chyfarfodydd gweithredol mwy rheolaidd lle rydym yn cyfarfod bob deufis. Rydym hefyd wedi gofyn i'r undebau ddatblygu cynnig ar gyfer amser cyfleusterau. |

## Beth arall yr ydym wedi'i wneud...

1 Rydym wedi cynnwys hyfforddiant yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn ein cyrsiau hyfforddi arolygwyr ac, yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gyhoeddi canllaw poced y gellir cyfeirio ato'n hawdd.

2 Rydym wedi parhau i drafod yr holl anghenion staffio yn effeithiol gyda rheolwyr ac wedi diweddaru ein Bwrdd Strategaeth ar ofynion y gweithlu i'n galluogi i roi trefniadau arolygu newydd 2010 ar waith yn effeithiol.

3 Rydym wedi adolygu ein dull ar gyfer recriwtio ac wedi cyflwyno proses symlach sy'n defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ac yn galluogi ymgyrchoedd i gael eu cwblhau mewn llai o amser nag yn y gorffennol.

4 Fe wnaethom barhau i ddefnyddio dull strategol i sicrhau Gwerth Am Arian, er enghraifft, trwy: fuddsoddi mewn atebion TG cost isel i leihau amser a chostau yn y dyfodol yn gysylltiedig â chasglu data, storio a dadansoddi barnau arolygu; rhoi Polisi Teithio a Chynhaliaeth newydd ar waith- gan gynnwys lleihau costau llogi ceir trwy drefniadau contract newydd; a rhoi trefniadau cefnogi ar waith, fel cyfleusterau gwell ar gyfer cyfathrebu o bell, i gefnogi symudiadau i weithio gartref gan staff arolygu ac i gyflawni arbedion sylweddol ar gostau adeiladau swyddfa yn y dyfodol pan fyddwn yn adnewyddu prydlesi swyddfa yn 2010-11.



Astudiaeth achos

# Rhaglen Trawsnewid Estyn (RhTE)

Fe wnaeth yr adolygiad strategol o Estyn, a gynhaliwyd yn 2008, gydnabod bod angen i ni ymateb i nifer o ysgogwyr ar gyfer newid, yn allanol ac yn fewnol.

Felly, fe wnaethom gynnal proses systematig o adolygu sefydliadol, gan arwain at gydnabod bod angen i ni drawsnewid y sefydliad a chyflwyno Arolygiaeth sy'n barod i gyflwyno yn y 'byd newydd'.

Ein nodau trawsnewid oedd creu aliniad strategol llawer cryfach o'n busnes rhwng ein cenhadaeth, ein diben a'n hamcanion strategol.

Mae cymhlethdod y trawsnewid yr ydym wedi bod yn ymgymryd ag ef ers hynny yn her sylweddol ac roedd angen defnyddio offer a thechnegau rheoli rhaglenni a phrosiectau i sicrhau bod ein nodau trawsnewid yn cael eu cyflawni'n effeithiol. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyflwyno rhaglen newid sy'n rhychwantu gweithgareddau ar draws y sefydliad. Mae prosiectau unigol wedi cael eu rhoi mewn grwpiau o fewn y themâu trawsnewid canlynol:

- Cyfeirio a llywodraethu mentrau;
- Cyflwyno mentrau;
- Galluogi mentrau;
- Pobl a Diwylliant; a
- Chyfathrebu.

Eir i'r afael â deunaw o brosiectau o fewn y themâu hyn, sy'n amrywio o ddatblygu ein trefniadau arolygu newydd trwy ddatblygu ein galluoedd rheoli gwybodaeth, i ailwampio ein strwythurau sefydliadol. Rydym wedi mabwysiadu methodoleg Prince2 Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC), Swyddfa'r Cabinet ar gyfer rheoli'r rhaglen a'r prosiectau, gan greu arweiniad ar gyfer trefniadau rheoli'r rhaglen, a phenodi unigolion ar draws y sefydliad ar gyfer yr ystod o rolau rheoli prosiect.

Rydym wedi cyflwyno strwythurau ar gyfer cynnal adolygiad systematig misol o gynnydd rhaglenni trwy Grŵp Adolygu Rhaglen Trawsnewid Estyn (RhTE), sy'n cynnwys y Rheolwyr Rhaglen a Rheolwyr Prosiect, a'r Bwrdd Newid, sy'n cynnwys PAEM, y Cyfarwyddwyr Strategol a Rheolwr y Rhaglen.

Yn olaf, rydym wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff yn rheolaidd am weithgareddau RhTE trwy ddefnyddio cylchgrawn misol Estyn, *Eich Estyn*, a thrwy sesiynau briffio a gweithdai yn ystod Diwrnodau Hyfforddiant Corfforaethol a'r Gynhadledd Staff.

# Hyfforddiant yn cael ei arwain gan Estyn - 2009-2010

| | Nifer yn mynychu | Sylw |
|---|---|---|
| Aseswyr cymheiriaid | 222 | Cafodd 205 o bobl hyfforddiant ar fframwaith Estyn 2004-2010, ac yn ddiweddarach, ymgymerodd 17 â hyfforddiant arolygiad peilot yn 2010 |
| Enwebeion ysgolion | 305 | Cafodd 295 o bobl hyfforddiant ar fframwaith Estyn 2004-2010, ac yn ddiweddarach, ymgymerodd 10 o bobl â hyfforddiant arolygiad peilot yn 2010 |
| Hyfforddiant diweddaru i arolygwyr cofrestredig | 64 | Yn cynnwys un arolygydd cofrestredig newydd yn ymgymryd â hyfforddiant trosi 1:1 |
| Hyfforddiant diweddaru i arolygwyr ychwanegol | 5 | |
| Hyfforddiant diweddaru i arolygwyr annibynnol | 261 | |
| Hyfforddiant cychwynnol i arolygwyr lleyg | 30 | |
| Hyfforddiant peilot 2010 i arolygwyr lleyg | 5 | |
| **Cyfanswm nifer y mynychwyr** | 892 | |

Roedd cyfanswm nifer y mynychwyr yn is eleni na'r cyfanswm yn 2008-2009, sef 1,856. Mae'r gostyngiad hwn wedi digwydd yn sgil y newidiadau sydd ar fin digwydd yn 2010. Mae rhaglen hyfforddi helaeth ar gyfer arolygwyr annibynnol, arolygwyr cymheiriaid ac enwebeion wedi'i threfnu ar gyfer haf 2010.

Mae hefyd yn bwysig nodi y gall mynychwr fynychu mwy nag un digwyddiad hyfforddi.

# Aelodau Bwrdd Estyn

Yn ystod 2008-2009, roedd y bobl ganlynol yn aelodau o fwrdd Estyn am y flwyddyn lawn oni nodir fel arall.

### Cyfarwyddwyr anweithredol

**Mrs Julie James** - cyn Gyfarwyddwr Personél, Monarch Airlines

**Mr Jerry Shelton** - cyn Gyfarwyddwr Reach Supported Living Ltd (Cyfarwyddwr Anweithredol hyd 20 Awst 2009)

**Mr Andrew Bellamy** - cyn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Glan Y Môr/Cyfarwyddwr Gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Abertawe

**Dr Haydn Edwards** - cyn Bennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Menai (Cyfarwyddwr Anweithredol o 2 Medi 2009)

### Uwch swyddogion

**Dr Bill Maxwell** - Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifo (hyd at 14 Chwefror 2010)

**Mrs Ann Keane** - Pennaeth Cyfarwyddiaeth / Cyfarwyddwr Strategol (hyd 14 Chwefror 2010) a Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifo (o 15 Chwefror 2010)

**Mr Simon Brown** - Pennaeth Cyfarwyddiaeth / Cyfarwyddwr Strategol

**Mr Meilyr Rowlands** - Cyfarwyddwr Strategol (o 1 Tachwedd 2009)

**Mrs Shan Howells** - Pennaeth Cyfarwyddiaeth: Polisi, Cynllunio a Datblygu Sefydliadol (hyd 31 Mai 2009)

Mae Estyn yn cynnal cofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd a chofrestr buddiannau ar gyfer yr holl gyflogeion parhaol, y rhai sydd ar secondiad a staff dros dro. Nid oes gan yr un aelod o'r Bwrdd swydd cyfarwyddwr na buddiannau arwyddocaol eraill a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli.



## Cyflogau

Rhoddir manylion am gyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ac uwch swyddogion eraill o Fwrdd Estyn yn yr Adroddiad Cyflogau sydd wedi'i gynnwys yn Adran 2 (Cyfrifon blynyddol 2009-10).

Ni chaiff cyfarwyddwyr anweithredol eu talu, ond gallant hawlio honorariwm misol o £421 (£584.77 y mis ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio) a chostau teithio a chynhaliaeth, yn ogystal â thaliadau honorariwm am waith ymgynghorol ychwanegol fel cymryd rhan mewn paneli recriwtio. Yn 2009-2010, cyfanswm gwerth yr hawliadau honorariwm oedd £21,073, a hawliwyd cyfanswm o £3,856 i ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth hefyd.

## Y Pwyllgor Archwilio

Caiff y Pwyllgor Archwilio, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol o Fwrdd Estyn, ei gadeirio gan un o'r cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Swyddog Cyfrifo yn ei gyfrifoldeb/chyfrifoldeb dros faterion risg, rheoli, llywodraethu a sicrwydd, a chafwyd presenoldeb llawn yn ei bedwar cyfarfod yn ystod 2008-2009. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol na materion yn ymwneud â barnu neu reolaeth y bu'n rhaid i'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y flwyddyn.

# Adran 2: Cyfrifon blynyddol 2009-10

# Sylwebaeth ar reolaeth

## Fformat y cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan Atodlen 6(5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn unol â'r cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwnnw gan Estyn yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.

Mae'r cyfrifon hyn yn adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau ac alldro ariannol Estyn. Nid oes ganddo is-gwmnïau.

## Gwybodaeth statudol gefndir a chyllid

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Corff y Goron ydyw, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

## Prif weithgareddau

Mae gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ystod eang o gyfrifoldebau arolygu statudol. Cyflawnir y cyfrifoldebau hyn trwy raglen arolygu flynyddol sy'n cynhyrchu adroddiadau a data ar bob sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru a dyma brif faes gweithgarwch Estyn o ran yr adnoddau a ddefnyddir.

Yn ogystal, mae Estyn yn ymgymryd ag ystod o adolygiadau ac ymchwiliadau thematig bob blwyddyn, y cytunir arnynt â Gweinidog Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff y rhain eu cynllunio i roi cyngor i lywio datblygu, gweithredu ac adolygu polisi cenedlaethol. Mewn rhai achosion, mae'r Prif Arolygydd hefyd yn ysgogi adolygiadau ac ymchwiliadau ei hun.

## Prif nod ac amcanion gweithredol

Yn 2009-2010, prif nod Estyn oedd codi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a hynny trwy:

- ddarparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- hyrwyddo gwelliant wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru; a
- llywio datblygu polisi cenedlaethol gan Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru; a
- datblygu Estyn fel sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr o ddewis'.

Bodlonwyd amcanion gweithredol Estyn ar gyfer 2009-2010 trwy ddwy raglen weithgarwch allweddol:

- Rhaglen Weithgarwch Un: y rhaglen arolygu sectorau mewn perthynas â darparwyr addysg a hyfforddiant.
- Rhaglen Weithgarwch Dau: arolygiadau ac adolygiadau thematig.

## Cyfle cyfartal

Polisi Estyn yw y dylai pob gweithiwr ac ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal ar gyfer cyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd neu weithiwr gael triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teulu/domestig neu batrymau gwaith e.e. rhan-amser, ac ni ddylai unrhyw unigolion wynebu anfantais yn sgil amodau neu ofynion na ellir eu cyfiawnhau.

Mae Estyn yn dilyn Cod Ymarfer y Gwasanaeth Sifil ar gyfer cyflogi pobl anabl, sy'n ceisio sicrhau na ddigwydd unrhyw wahaniaethu ar sail anabledd, a bod cyflogaeth a dyrchafiad mewn gyrfa yn Estyn yn llwyr ar sail gallu, cymwysterau ac addasrwydd ar gyfer y gwaith.

## Data absenoldebau salwch

**Prif Fesurau**

| **Mesur** | **2009-2010** | **2008-2009** |
|---|---|---|
| Cyfradd absenoldeb salwch | 3.16% | 5.12% |
| Cyfran y staff yn cronni absenoldeb salwch | 46.7% | 48.1% |
| Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul cyflogai | 7.5 diwrnod | 11.9 diwrnod |
| Cyfartaledd y cyfnod absenoldeb | 6.76 diwrnod | 9.43 diwrnod |
| Digwyddiadau absenoldeb salwch | 112 o ddigwyddiadau | 131 o ddigwyddiadau |

## Lledaenu Gwybodaeth

Mae Estyn yn annog rhannu gwybodaeth a syniadau, ac yn ceisio manteisio'n llawn ar dechnoleg fodern i gyflawni'r nodau hyn. Mae gan Estyn wefan y gellir cael gwybodaeth am y sefydliad trwyddi, ynghyd â'i adroddiadau a'i gyngor. Mae cyhoeddiadau ar y safle hwn wedi'u seilio ar dystiolaeth arolygu sy'n cwmpasu amrywiaeth o byncìau ym maes addysg a hyfforddiant. Mae system cronfa ddata arolygu Estyn, 'Athene', ar gael i bob aelod o staff ei gweld a'i hymholi. Mae safle mewnrwyd ar gael i'r holl staff hefyd ar lwyfan Microsoft SharePoint. Mae Estyn yn cyflwyno 'Materion Gwaith' i'r holl staff yn rheolaidd, sy'n rhoi gwybodaeth a'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â pholisïau, gweithdrefnau, arweiniad cyffredinol a digwyddiadau sy'n effeithio ar staff a'r sefydliad cyfan. Sefydlwyd grwpiau rheoli strwythuredig i drafod a lledaenu gwybodaeth ar lefelau strategol, corfforaethol a gweithredol. Cynhelir cyfarfodydd corfforaethol a chyfarfodydd grŵp yn rheolaidd i rannu syniadau a gwybodaeth. Caiff canlyniadau o gyfarfodydd eu rhannu trwy gofnodion sydd ar gael i staff. Mae Estyn yn gweithredu nifer o brotocolau gyda chyrff cyhoeddus eraill, trwy Femoranda Dealltwriaeth yn bennaf.

## Cynaliadwyedd

Y llynedd parhaom â'n hymrwymiad i gynaliadwyedd trwy weithio i gyflwyno ein cynllun gweithredu amgylcheddol er mwyn cadw ein hachrediad cynaliadwyedd 'Draig Werdd' (mae mwy o fanylion am hwn ar gael yn Adran 1 yr adroddiad hwn o dan 'Amcan 4'). Mae ein prosesau arolygu hefyd yn cynnwys edrych ac adrodd ar gynaliadwyedd, a'i hyrwyddo o fewn darparwyr addysg a hyfforddiant unigol.

## Polisi Talu

Yn 2009-10, fe wnaethom weithio i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, i dalu cyflenwyr diamheuol o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 99.9% o'r holl gyfryw daliadau a wnaed yn 2009-2010 (2008-2009: 99.3%).

## Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Yn Adroddiad Cynnydd Interim Swyddfa'r Cabinet ar Weithdrefnau Trin Data, a gyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2007, Adroddiad Swyddogol, colofn 98WS, gwnaeth y Llywodraeth ymrwymiad y byddai adrannau'r llywodraeth yn cynnwys gwybodaeth am reoli risg yn eu hadroddiadau blynyddol. Yn unol â hynny, mae gofyn i Estyn adrodd ar wybodaeth mewn perthynas â digwyddiadau'n ymwneud â data personol yn ei gyfrifon adnoddau blynyddol.

## Cwmpas gofynnol data personol wedi'i ddiogelu

Yn unol ag arweiniad y Cabinet, mae gofyn i Estyn nodi data sy'n cael ei ddal ganddo neu gan ei bartneriaid cyflwyno unigol, y gallai rhyddhau neu golli'r data hwn achosi niwed neu drallod i unigolion. Rhaid i hyn gynnwys, ar y lleiaf, yr holl ddata sy'n disgyn i un neu ddau o'r categorïau isod.

| | |
|---|---|
| A | Unrhyw wybodaeth sy'n cysylltu un neu fwy o bobl byw, adnabyddadwy â gwybodaeth amdanynt y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn peri risg sylweddol o niwed neu drallod iddynt, fel y dangosir yn y tabl isod. |

| **1** Un neu fwy o'r darnau o wybodaeth y gellir eu defnyddio ar y cyd â'r wybodaeth sy'n gyhoeddus er mwyn adnabod unigolyn | Wedi'i gyfuno â | **2** Gwybodaeth am yr unigolyn hwnnw y byddai ei rhyddhau yn debygol o achosi niwed neu drallod |
|---|---|---|
| Enw / cyfeiriad (cartref neu fusnes neu'r ddau) / cod post / e-bost / rhifau ffôn / rhif trwydded yrru / dyddiad geni<br><br>[Sylwer bod rhif trwydded yrru wedi'i gynnwys yn y rhestr hon gan ei fod yn rhoi dyddiad geni a rhan gyntaf y cyfenw yn uniongyrchol.] | | Data personol sensitif fel y'i diffinnir gan A.2 Deddf Diogelu Data, gan gynnwys cofnodion sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol, ac aelodaeth grŵp<br><br>DNA neu ôl bysedd / manylion banc, ariannol neu gardiau credyd / enw bedydd mam / rhif Yswiriant Gwladol / cofnodion treth, budd-dal neu bensiwn / cofnodion iechyd / cofnod cyflogaeth / presenoldeb neu gofnodion ysgol / deunydd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys amddiffyn plant a thai |

Nid yw'r rhestrau uchod yn hollgynhwysfawr.

| | |
|---|---|
| B | Unrhyw ffynhonnell wybodaeth am 1,000 neu fwy o unigolion adnabyddadwy, heblaw gwybodaeth sydd i'w chael yn gyhoeddus. |

Gallai hon fod yn gronfa ddata gyda 1,000 neu fwy o gofnodion yn cynnwys ffeithiau sy'n cael eu crybwyll ym mlwch 1, neu ffolder neu yriant electronig sy'n cynnwys 1,000 neu fwy o gofnodion am unigolion. Eto, mae hon yn safon ofynnol. Gall gwybodaeth am niferoedd llai o unigolion fod yn deilwng o'i hamddiffyn oherwydd natur yr unigolion, natur neu ffynhonnell y wybodaeth, neu raddfa'r wybodaeth.

Gall digwyddiadau, y byddai eu datgelu ynddo'i hun yn peri risg annerbyniol o niwed, gael eu heithrio yn unol â'r eithriadau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gallant fod yn destun cyfyngiadau deddfwriaeth arall y DU ynghylch gwybodaeth.

## Tabl 1: Crynodeb o ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu yr adroddwyd yn ffurfiol amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2009-2010

| Dyddiad y digwyddiad (mis) | Natur y digwyddiad | Natur y data dan sylw | Nifer y bobl bosibl yr effeithiwyd arnynt | Camau hysbysu |
|---|---|---|---|---|
| Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| Camau pellach ar risg gwybodaeth |
|---|
| Ni fu unrhyw ddigwyddiadau i adrodd amdanynt. Fodd bynnag, bydd Estyn yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus systemau. |

## Tabl 2: Crynodeb o ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu yn 2009-2010

Mae digwyddiadau yr ystyriodd y Rheolwr Data nad oeddent yn dod o fewn y meini prawf adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ond sydd wedi'u cofnodi'n ganolog yn Estyn wedi'u rhoi yn y tabl isod. Nid yw digwyddiadau bychan, lleol yn cael eu cofnodi'n ganolog ac ni chânt eu cynnwys yn y ffigurau hyn.

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli offer neu ddyfeisiadau electronig nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, neu ddogfennau papur, o safleoedd diogel y Llywodraeth | Dim |
| II | Colli offer neu ddyfeisiadau electronig nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, neu ddogfennau papur, o'r tu hwnt i safleoedd diogel y Llywodraeth | Dim |
| III | Gwaredu offer neu ddyfeisiadau electronig nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, neu ddogfennau papur, mewn modd anniogel | Dim |
| IV | Datgelu heb awdurdod | Dim |
| V | Arall | Dim |

## Tabl 3: Cyfanswm nifer y digwyddiadau yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu blwyddyn ar ôl blwyddyn cyn 2009-2010

**Cyfanswm nifer y digwyddiadau yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu yr adroddwyd yn ffurfiol amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ôl rhif categori**

| | I | II | III | IV | V | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2008-2009** | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| **2007-2008** | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| **2006-2007** | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |

**Cyfanswm nifer y digwyddiadau yn ymwneud â data personol, yn ôl rhif categori**

| | I | II | III | IV | V | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2008-2009** | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| **2007-2008** | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| **2006-2007** | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |

## Canlyniadau am y flwyddyn

Yn 2009-10, cyfanswm gwariant refeniw Estyn, net o incwm, oedd £13.2miliwn (2008-09: £12.8miliwn). Nodir manylion y canlyniadau am y flwyddyn yn y cyfrifon atodedig.

Cyllideb refeniw Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru oedd £14.6miliwn. Drwy gydol y flwyddyn, rhoddodd Estyn wybod i'r Cynulliad am ei ragamcan o wariant fel y gallai'r Cynulliad alw ar arbedion posibl yn erbyn y gyllideb i'w defnyddio mewn meysydd gwasanaeth eraill. Ar ddiwedd 2009-10, dychwelwyd £1.4miliwn i'r Cynulliad. Mae'r tanwariant yn y gyllideb yn ymwneud â rhaglenni yn bennaf, ac mae'n adlewyrchu arbedion sy'n deillio o farchnad gystadleuol barhaus ar gyfer darparu arolygiadau ysgol wedi'u contractio yn allanol a gostyngiad yn nifer yr arolygiadau a gynhelir o ganlyniad i uno a chau ysgolion a darparwyr eraill.

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2010 yn dangos rhwymedigaethau net o £1.4miliwn (2008-09: £1.4miliwn). Nid yw'n anarferol i fantolen Estyn ddangos sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol oherwydd lefel uchel y credydwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r credydwyr hyn yn ganlyniad arferol trefniadau cytundebol Estyn ar gyfer arolygiadau ysgol, gan na wneir taliad am gontract nes bod Estyn wedi derbyn yr adroddiad arolygu. Dan ofynion statudol, gellir derbyn yr adroddiad hyd at 45 diwrnod ar ôl cwblhau'r arolygiad. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, dan drefniadau gwasanaeth darparwr cyflogres a thaliadau, mae ffigur y credydwyr hefyd yn cynnwys croniad yn y cyfrifon ar gyfer cyflogau lle nad yw taliad yr anfoneb gan Estyn wedi cael ei glirio (taliadau mis Mawrth a mis Chwefror). Bydd Estyn yn cael

cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fodloni pob un o'r rhwymedigaethau uchod pan fyddant yn aeddfedu yn y flwyddyn ariannol 2010-2011 ac, yn unol â hynny, mae wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

Cyfanswm gwariant cyfalaf Estyn yn 2009-10 oedd £0.129m. Prif elfen y gwariant cyfalaf yn 2009-10 oedd cost creu deunyddiau hyfforddi 'arfer orau', a ddangosir yn y cyfrifon o dan 'asedau anniriaethol'.

## Edrych ymlaen

Ar hyn o bryd, rydym yn cwblhau'r trefniadau ar gyfer ein cylch 6 blynedd nesaf o arolygiadau sy'n dechrau ym Medi 2010. Bydd arolygiadau o Fedi 2010 yn cael eu cynnal o dan fframwaith arolygu newydd a fydd yn nodi newid sylweddol o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ffordd yr ydym yn arolygu ac mae wedi'i gynllunio i gyd-fynd â strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth am y fframwaith arolygu newydd a'n hamcanion strategol allweddol ar gyfer y tair blynedd nesaf ar gael yn ein Cynllun Strategol 2010-2013 a'n Cynllun Blynyddol 2010-2011 ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk.

Yn unol â llawer o sefydliadau cyhoeddus eraill, rydym hefyd yn paratoi i fodloni cyfyngiadau yn y dyfodol ar wariant ar wasanaethau cyhoeddus a'r agenda effeithlonrwydd gysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys parhau i edrych ar ffyrdd o resymoli ein gweithdrefnau gweithredu ac addasu ein model busnes er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a bodloni ein hamcanion craidd yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol.

## Archwilwyr

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio cyfrifon Estyn yn unol ag Atodlen 6 (6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

I'r graddau y mae'r Swyddog Cyfrifo yn ymwybodol:

- nid oes yna unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Estyn yn ymwybodol ohoni, ac
- mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i'w gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i bennu bod archwilwyr Estyn yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.



**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo

9 Awst 2010

# Adroddiad ar gyflogau

Pennir cyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan baragraff 3 Atodlen 2 Deddf Addysg 2005.

Ar gyfer uwch aelodau staff parhaol eraill y Bwrdd, pennwyd eu cyflog gan Bwyllgor Cyflogau Estyn, sy'n cynnwys y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a chyfarwyddwr anweithredol, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Wrth lunio'i argymhellion, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried yr ystyriaethau canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl fedrus a chymwysedig addas i arfer eu cyfrifoldebau gwahanol;
- meincnodi gwybodaeth sydd ar gael gan Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys y rhai sydd agosaf at Estyn o ran lleoliad a math o waith;
- y cyllid sydd ar gael i'r adran a'r cyngor sydd ar gael yn flynyddol gan Swyddfa'r Cabinet; a
- pholisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus a rôl rheoli perfformiad wrth sicrhau a chydnabod gwerth i'r sefydliad a gwobrwyo cyfraniadau at amcanion busnes ac amcanion corfforaethol.

Mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o ran ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Wrth gytuno ar gyflogau ar gyfer staff unigol, rhoddodd Pwyllgor Cyflogau Estyn ystyriaeth benodol i'r meini prawf canlynol:

- twf yr unigolyn ei hun o ran gallu;
- yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd;
- hyder ym mherfformiad yr unigolyn yn y dyfodol.

Wrth ystyried bonysau staff, ystyriwyd y ffactorau canlynol:

- a fodlonwyd amcanion, ac i ba raddau;
- sut y bodlonwyd yr amcanion, ac yn benodol, p'un a ddangoswyd ymddygiad arweinyddiaeth a medrau proffesiynol ai peidio, ac i ba raddau;
- graddfa anhawster neu rwyddineb bodloni amcanion yn sgil digwyddiadau gwirioneddol.

## Contractau Gwasanaeth

Gwneir penodiadau i'r Gwasanaeth Sifil yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, sy'n gofyn am benodi yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond mae hefyd yn cynnwys yr amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â hwy swyddi penagored nes iddynt gyrraedd yr oedran ymddeol arferol, sef 65 oed. Byddai terfynu cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodwyd yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Penodwyd Mrs A D Keane yn Brif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor dan Adran 19 Deddf Addysg 2005) am dymor dros dro yn cychwyn ar 15 Chwefror 2010 hyd 30 Medi 2010, nes y gwneir penodiad tymor hir. Mae'r rheolau penodi wedi'u nodi yng Nghod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommissioners.gov.uk.

## Hawliau cyflog a phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am gyflog a buddion pensiwn uwch swyddogion Estyn.

| Cyflog* | 2009-10 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|
| Swyddogion | Cyflog £'000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Cyflog £'000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) |
| **Ann Keane**<br>Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru<br>(o 15 Chwefror 2010 - Pennaeth Cyfarwyddiaeth / Cyfarwyddwr Strategol gynt) | 85- 90 | - | 70-75 | - |
| **Dr William Maxwell**<br>Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru<br>(hyd 14 Chwefror 2010) | 80 - 85 (95 - 100 cyfwerth â blwyddyn lawn) | - | 95 -100 | - |
| **Simon Brown**<br>Cyfarwyddwr Strategol<br>(o 1 Tachwedd 2009 - Pennaeth Cyfarwyddiaeth gynt) | 70 - 75 | - | 35 - 40 (70 - 75 cyfwerth â blwyddyn lawn) | - |
| **Shan Howells**<br>Pennaeth Cyfarwyddiaeth: Polisi, Cynllunio a Datblygu Sefydliadol<br>(hyd 31 Mai 2009) | 60 - 65 (85 - 90 cyfwerth â blwyddyn lawn) | - | 90 - 95 | - |
| **Meilyr Rowlands**<br>Cyfarwyddwr Strategol<br>(o 1 Tachwedd 2009) | 30 - 35 (70 - 75 cyfwerth â blwyddyn lawn) | - | | - |

### Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; taliadau am berfformiad neu daliadau bonws; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa preifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethi'r DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wnaed gan Estyn ac sydd felly'n cael eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

### Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin fel tâl trethadwy gan Gyllid y Wlad.

## Buddion Pensiwn*

| Swyddogion | Pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31/3/10 £'000 | Cynnydd go iawn mewn pensiwn yn 60 oed £'000 | CETV ar 31/3/10 £'000 | CETV ar 31/3/09 £'000 | Cynnydd go iawn mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ann Keane**<br>Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru<br>(o 15 Chwefror 2010 - Pennaeth Cyfarwyddiaeth / Cyfarwyddwr Strategol gynt) | 35 - 37.5 | 2.5 - 5 | 825 | 720 | 111 |
| **Dr William Maxwell**<br>Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru<br>(hyd 14 Chwefror 2010) | 42.5 - 45 | 0 - 2.5 | 753 | 673 | 34 |
| **Simon Brown**<br>Cyfarwyddwr Strategol<br>(o 1 Tachwedd 2009 - Pennaeth Cyfarwyddiaeth gynt) | 27.5 - 30 | 2.5 - 5 | 541 | 499 | 50 |
| **Shan Howells**<br>Pennaeth Cyfarwyddiaeth: Polisi, Cynllunio a Datblygu Sefydliadol<br>(hyd 31 Mai 2009) | 26.5 - 29 | 0 - 2.5 | 612 | 590 | 5 |
| **Meilyr Rowlands**<br>Cyfarwyddwr Strategol<br>(o 1 Tachwedd 2009) | 24.5 - 27 | 0 - 2.5 | 514 | - | 31 |

* Mae'r wybodaeth hon yn amodol ar archwiliad

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig: naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (**classic**, **premium** neu **classic plus**); neu gynllun 'gyrfa lawn' (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost buddion gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos** eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM). Gall gweithwyr a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'pryniant arian' ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Gosodir cyfraniadau gweithwyr ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer **classic** a 3.5% ar gyfer **premium**, **classic** plus a **nuvos**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80 y cyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn o dair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddion **premium** yn cronni ar gyfradd o 1/60 yr enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob diben, mae **classic plus** yn gynllun hybrid gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn unol â **classic** a'r buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo yn yr un modd ag yn **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff 2.3% o enillion pensiynadwy'r aelod yn y flwyddyn honno eu credydu i'w gyfrif pensiwn enilledig, a chodir cyfradd y pensiwn cronedig yn unol ag MPM. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) mewn pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn cyfateb y cyfraniad hwnnw hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil iechyd gwael).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth wedi peidio â bod yn aelod o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oedran pensiynadwy neu'n mynd y tu hwnt iddo. Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau **classic**, **premium** a **classic plus** yw 60 oed, a 65 oed ar gyfer aelodau **nuvos**.

Gellir gweld manylion pellach am drefniadau pensiynau'r Gwasanaeth Sifil ar y wefan ganlynol: www.civilservice-pensions.gov.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddiad Cyfwerth ag Arian

Gwerth Trosglwyddiad Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion yr aelod a gronnwyd ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cyn-gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn yn sgil eu haelodaeth lwyr yn y cynllun pensiwn, ac nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn

cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod yn sgil prynu buddion pensiwn ychwanegol ganddo gyda'i arian ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fuddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu hawlio.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd

Ni wnaeth Estyn unrhyw daliadau iawndal i uwch swyddogion yn ystod 2009-2010.

Gadawodd Shan Howells o dan Delerau Ymddeoliad Cynnar Gorfodol/Gwirfoddol ar 31 Mai 2009. Cafodd daliad o'i phensiwn yn syth a chyfandaliad cysylltiedig a iawndal o £40 - 45,000 yn ogystal.



**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo

9 Awst 2010

# Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifo

Dan Atodlen 6(5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i Estyn baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn rhoi manylion yr adnoddau a gafwyd, a gadwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn ac o alldro net ei adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol bod y Swyddog Cyfrifo yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn unol â pharagraff 5 Atodlen 6 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson;
- llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, fel y nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Swyddog Cyfrifo Estyn. Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Estyn, eu nodi ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo, a ddosbarthwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn Cyfrifon y Llywodraeth (Y Llyfrfa).

# Datganiad ar reolaeth fewnol

## 1 Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifo, mae gennyf i gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reoli mewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf i'n gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Mae Estyn yn gorff llywodraethol anweinidogol sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi, dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Caiff adnoddau cyllideb eu darparu i Estyn trwy'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol yng Nghynulliad Cymru.

Mae cytundeb Swyddog Cyfrifo rhwng y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n nodi ein cyfrifoldebau a'n perthynas fel Swyddogion Cyfrifo priodol. Er gwaethaf y disgwyliad y bydd cyswllt arferol rhwng Estyn a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion o reolaeth ac atebolrwydd ariannol yn cael ei reoli trwy'r Cytundeb a grybwyllir uchod, mae'n parhau i fod yn agored i mi gyfeirio materion yn uniongyrchol ar yr Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru pe bawn yn teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny.

## 2 Diben y system rheolaeth fewnol

Bwriad y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg at lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ond gynnig sicrwydd rhesymol o ran effeithiolrwydd ac nid sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd â'r bwriad o nodi a blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, arfarnu'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Sefydlwyd y system hon o reolaeth fewnol yn Estyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd ag arweiniad y Trysorlys.

## 3 Y gallu i ddelio â risg

Mae polisi rheoli risg Estyn yn nodi:

- diben trefniadau rheoli risg Estyn;
- egwyddorion rheoli risg;
- cyfrifoldebau perthynol yn Estyn;
- goddefiant ac awydd o ran risg;
- fframwaith rheoli risg Estyn a sut y bydd yn gweithio; a
- sut mae rheoli risg yn cyfrannu at roi sicrwydd.

Dan y polisi, mae arweinwyr tîm ar lefel Pennaeth Cangen ac yn uwch yn gyfrifol am sicrhau bod pawb yn eu timau yn deall eu cyfrifoldebau rheoli risg ac am egluro faint o rym a roddir i staff i gymryd risg yn unol â'r polisi risg ac arweiniad arall. Cyflwynir y staff i system risg Estyn fel rhan o'u cyfnod sefydlu yn y sefydliad, ac i reoli risg mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u swydd a'u cyfrifoldebau. Mae angen proffiliau rheoli risg mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer pob prosiect neu ddarn sylweddol o waith.

## 4 Y fframwaith risg a rheoli

Caiff datganiadau ar reolaeth fewnol eu cynhyrchu gan staff Estyn ar lefel Pennaeth Cangen a Chyfarwyddwr Cynorthwyol (lefel tîm AEM Rheoli gynt) i gefnogi'r datganiadau rheoli a luniwyd gan Gyfarwyddwyr Strategol (Penaethiaid Cyfarwyddiaeth gynt) sydd yn eu tro yn cefnogi'r datganiad hwn.

Caiff cofrestr risg Estyn ei diweddaru bob chwarter a'i hadolygu'n flynyddol ar lefel tîm uwch reoli a thîm rheoli corfforaethol. Mae hyn yn sicrhau y caiff risgiau strategol a chorfforaethol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, eu nodi, eu hasesu'n wrthrychol a'u rheoli'n weithgar. Fel y soniwyd amdano'n gynharach, mae polisi rheoli risg Estyn yn nodi ei ddull ar gyfer goddefiant risg drwy ddiffinio'r hyn sy'n risgiau derbyniol a'r hyn sy'n feysydd risg a waherddir. Cafodd y gweithdrefnau rheoli risg eu hadolygu a'u hatgyfnerthu yn ystod 2009-10 i adlewyrchu newidiadau i strwythur rheoli'r sefydliad.

Ymgorfforir rheoli risg yng ngweithgarwch y sefydliad drwy'r gofyniad i'r holl waith sylweddol gael ei asesu'n briodol ar gyfer risg, a'i reoli yn unol â'r asesiadau hynny, gan bawb dan sylw. Yn unol â'n Fframwaith Arolygu Cyffredin, gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith arolygu yn y cylch arolygu 6 blynedd yn awr ar sail asesu risg.

Mae cynnal ymwybyddiaeth o risg, gan gynnwys nodi cynnar a rheoli gweithgar, yn cael ei gyflawni ar bob lefel yn y sefydliad drwy adolygu'r gofrestr risg yn rheolaidd a thrwy'r gofyniad i reolwyr gwblhau datganiadau sicrwydd rheoli blynyddol yn seiliedig ar reoli risgiau tîm. Mae datganiadau sicrwydd rheoli yn cwmpasu gofynion i adrodd ar achosion o ddatgelu heb awdurdod neu golli data personol.

Yn ogystal â'i Bolisi Rheoli Risg, mae gan Estyn Bolisi ar wahân ar Reoli Risg Gwybodaeth ac mae'n cynnal Cofrestr Risg Gwybodaeth benodol. Mae holl staff Estyn yn cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn llywodraethu gwybodaeth ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â Pholisi Sicrhau Gwybodaeth Estyn. Rhaid i gontractwyr a phartneriaid eraill Estyn hefyd weithio o fewn y Polisi Sicrhau Gwybodaeth. Yn unol â gofynion y llywodraeth, mae Estyn wedi penodi Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ac mae'n nodi asedau gwybodaeth i'w trosglwyddo i Berchnogion Asedau Gwybodaeth dynodedig.

Pan gaiff systemau neu weithdrefnau eu creu o'r newydd neu eu hadolygu, rhoddir risg wrth graidd ystyriaethau Estyn ac rydym yn annog y rhai yr ydym yn gweithio â nhw i ddefnyddio dull ar sail risg hefyd ac ymuno â ni i asesu a rheoli risg. Er enghraifft, rhoddir contractau i gontractwyr arolygiadau ysgolion ar sail sy'n cynnwys y ffordd y maent yn nodi ac yn rheoli risgiau. Yn yr un modd, mae gan Estyn bedwar fforwm arolygu sy'n cwmpasu agweddau gwahanol ar ein busnes craidd ac sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol, i gynnig safbwynt allanol ar ein gwaith a'n datblygiad, er mwyn lleihau'r risg o beidio â chael her allanol i'r hyn a wnawn fel sefydliad.

## 5 Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf i gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system ar gyfer rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yn Estyn sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith o reolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Cefais fy nghynghori ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan Bwyllgor Archwilio Estyn.

Darperir her allanol trwy Bwyllgor Archwilio Estyn gyda'i aelodau annibynnol a'i gadeirydd annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Swyddog Cyfrifo yn ei chyfrifoldeb am faterion risg, rheolaeth, llywodraethu a sicrwydd cysylltiedig yn Estyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio, gyda chymorth archwilio mewnol ac allanol, yn cynnal hunanasesiad blynyddol o waith a pherfformiad y Pwyllgor sy'n helpu aelodau i lunio cynllun gweithredu ar gyfer y Pwyllgor. Darperir mwy o her allanol gan Fwrdd Strategaeth Estyn, a chrybwyllir hyn yn Adran 1 yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn. Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys bod awydd Estyn am risg yn cael ei bennu a sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n briodol ac effeithiol.

Yn ystod 2009-2010, penodwyd Deloitte LLP gan Estyn fel darparwr ei wasanaeth archwilio mewnol. Gweithredodd Deloitte yn unol â

Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth tra'n ymgymryd ag archwiliadau yn unol â strategaeth archwilio tair blynedd a chynllun blynyddol cytûn. Mae'r gwaith sy'n cael ei gwblhau gan ein harchwilwyr mewnol yn arwain at adroddiadau sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella i mi. Ar gyfer yr holl archwiliadau yr ymgymerwyd â nhw mewn perthynas â'r flwyddyn a gwmpesir yn y cyfrifon hyn, roedd Deloitte yn gallu rhoi sicrwydd bod risgiau sy'n berthnasol i gyflawni amcanion ym mhob maes a archwilir yn cael eu rheoli'n briodol. Rhennir yr adroddiadau hyn gyda Phwyllgor Archwilio Estyn. Eir i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd trwy adroddiadau archwilio mewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod gwella parhaus ar waith. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n monitro cwblhau a chydymffurfio ag argymhellion archwilio.

Gall Estyn fanteisio ar ystod o wasanaethau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy gytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol. O dan drefniadau o'r fath, gall Estyn weld unrhyw adroddiad archwilio ac unrhyw gynllun gweithredu i fynd i'r afael â chanfyddiadau a/neu argymhellion yr archwilydd sy'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir i Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Datganiad o Reolaeth Fewnol a lofnodwyd gan y Fonesig Gillian Morgan yn rhoi sicrwydd yn y pen draw am effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol ar gyfer gwasanaethau o'r fath a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo

9 Awst 2010

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Alldro Adnoddau, y Datganiad o Gostau Gweithredu a'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r Datganiad-Adrodd Segmentol o Gostau Gweithredu yn ôl Nod ac Amcanion Adrannol a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifo a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gyflogau y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

## Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gyflogau, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wneir yn ôl y gofynion hynny ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gyflogau a fydd yn cael ei harchwilio yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, a chyda Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Rwyf yn adrodd fy marn i chi ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau a fydd yn cael ei harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Rwyf yn adrodd i chi ynghylch a yw'r wybodaeth sy'n cynnwys y Sylwebaeth ar Reolaeth a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau nad yw wedi cael ei harchwilio sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol. Rwyf hefyd yn adrodd ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw Estyn, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, os nad wyf i wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad, neu os na ddatgelir y wybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM ynghylch cyflogau a thrafodion eraill.

Rwyf yn adolygu a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn dangos bod Estyn wedi cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys EM, ac rwyf yn adrodd os nad yw'n cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu pob risg a rheoliad, ac nid yw'n ofynnol i mi ychwaith roi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau rheolaeth gorfforaethol Estyn neu ei weithdrefnau risg a rheoli.

Rwyf yn darllen y wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol, y Sylwebaeth ar Reolaeth a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau nad yw wedi cael ei harchwilio. Rwyf yn ystyried y

goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

## Sail barn yr archwiliad

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau a fydd yn cael ei harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo sy'n fwyaf priodol i amgylchiadau Estyn, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawni fy archwiliad er mwyn i mi allu cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau i'w harchwilio, boed trwy dwyll neu drwy gamgymeriad, a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi arfarnu a yw'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau i'w harchwilio yn ddigonol at ei gilydd.

## Barn

**Yn fy marn i:**

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM o dan y ddeddf honno, o'r sefyllfa yn Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ar 31 Mawrth 2010, a'r gofyniad arian net, y gost weithredu net, y costau gweithredu a ddefnyddiwyd at amcanion, a'r llifoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; ac
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys y Sylwebaeth ar Reolaeth a'r rhan heb ei harchwilio o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gillian Body**
Swyddfa Archwilio Cymru
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

10 Awst 2010

# Cyfrifon Blynyddol Estyn 2009-10 (IFRS)

## Crynodeb o Alldro'r Adnoddau

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

| Cais am adnoddau | Nodyn | 2009-10 Amcangyfrif Gwariant gros £000 | Incwm £000 | CYFAN-SWM NET £000 | 2009-10 Alldro Gwariant gros £000 | Incwm £000 | CYFAN-SWM NET £000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r arbediad/ (ychwanegiad) Amcan £000 | 2008-09 Alldro'r flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 5 | 7,392 | - | 7,392 | 7,358 | - | 7,358 | (34) | 6,879 |
| Costau Gweinyddol | 6 | 2,135 | - | 2,135 | 2,023 | (248) | 1,775 | (360) | 1,751 |
| Costau Rhaglenni | 7 | 4,689 | - | 4,689 | 3,630 | (5) | 3,625 | (1,064) | 3,798 |
| Cost Cyfalaf | | 34 | - | 34 | (13) | - | (13) | (47) | (43) |
| Dibrisiant | 9,10 | 342 | - | 342 | 450 | - | 450 | 108 | 408 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | | 14,592 | - | 14,592 | 13,448 | (253) | 13,195 | (1,397) | 12,793 |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | 4 | | | **14,661** | | | **12,581** | | **12,537** |

Rhoddir esboniad o'r amrywiant rhwng amcangyfrif ac alldro yn y Sylwebaeth ar Reolaeth (tudalen 31) ac yn Nodyn 3.2 (tudalen 56).

## Datganiad o'r Costau Gweithredu

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | **2009-2010** £000 | £000 | 2008-2009 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddol** | | | | |
| Costau staff | 5 | **7,358** | | 6,879 |
| Costau gweinyddol eraill | 6 | **2,023** | | 1,967 |
| **Costau gweinyddol gros** | | | **9,381** | 8,846 |
| Incwm gweithredol | 8 | | **(248)** | (216) |
| **Costau gweinyddol net** | | | **9,133** | 8,630 |
| **Costau rhaglenni** | | | | |
| Gwariant | 7 | **3,630** | | 3,802 |
| Llai: incwm | 7 | **(5)** | | (4) |
| **Costau rhaglenni net** | | | **3,625** | 3,798 |
| **Cost Cyfalaf** | | | **(13)** | (43) |
| **Dibrisiant** | | | **450** | 408 |
| **Cost gweithredu net** | 3.1 | | **13,195** | 12,793 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau sy'n parhau.
Mae'r holl enillion neu golledion cydnabyddedig yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o'r Costau Gweithredu.
Dangosir adroddiadau segmentol ar dudalen 52.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

ar 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | **31 Mawrth 2010** | | 31 Mawrth 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 10 | **66** | | 11 | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 9 | **177** | | 553 | |
| | | | **243** | | 564 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 12 | **512** | | 491 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 13 | **790** | | 52 | |
| | | | **1,302** | | **543** |
| | | | **1,545** | | **1,107** |
| Cyfanswm yr asedau | | | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 14 | **(2,604)** | | **(2,362)** | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(2,604)** | | **(2,362)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(1,059)** | | **(1,255)** |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | 15 | **(351)** | | **(137)** | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | **(351)** | | **(137)** |
| **Asedau llai Rhwymedigaethau** | | | **(1,410)** | | **(1,392)** |
| **Ecwiti'r trethdalwr** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | **(1,410)** | | **(1,392)** | |
| | | | **(1,410)** | | **(1,392)** |

**Ann D Keane**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros
Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
a Swyddog Cyfrifo

9 Awst 2010

# Datganiad Llif Arian

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth

| | Nodyn | **2009-10 £000** | 2008-09 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Cost gweithredu net | | (13,195) | (12,793) |
| *Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:* | | | |
| Dibrisiant | | 450 | 408 |
| Cost Cyfalaf | | (13) | (43) |
| Cyflogau (darpariaeth) | 5 | 99 | 85 |
| Costau gweinyddol eraill (darpariaeth) | 6 | 200 | 1 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 14a | 242 | 170 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 12a | (21) | (82) |
| Llai symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r OCS, e.e. credydwyr cyfalaf | | (93) | (97) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 15 | (85) | |
| **All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredu** | | **(12,416)** | **(12,351)** |
| **Llifau arian o Weithgareddau Buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 9 | (36) | (179) |
| Prynu asedau anniriaethol | 10 | | (7) |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(36)** | **(186)** |
| | | | |
| **Llifau arian o Weithgareddau Ariannu** | | | |
| **Ariannu Net (gan Lywodraeth Cynulliad Cymru)** | | **13,190** | **12,150** |
| **Cynnydd / (gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | 13 | **738** | **(387)** |
| | | | |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 13 | **52** | **439** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 13 | **790** | **52** |

Nodyn: Nid yw prynu eiddo, cyfarpar ac offer yn cynnwys credydwyr o £2,000 ac nid yw Prynu asedau anniriaethol yn cynnwys credydwyr o £91,000.

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

| | | 2009-10 £000 |
|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2009** | | (567) |
| Addasiad IFRS 2007-08 | | (139) |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2008-09** | | **(706)** |
| Costau nad ydynt yn rhai arian parod - cost cyfalaf | (43) | |
| Cost weithredu net am y flwyddyn | (12,793) | |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2008-09 | | **(12,836)** |
| Cyllid Seneddol Net | 12,150 | |
| | | **12,150** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2009** | | **(1,392)** |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2009-10** | | |
| Costau nad ydynt yn rhai arian parod - cost cyfalaf | (13) | |
| Cost weithredu net am y flwyddyn | (13,195) | |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2009-10 | (13,208) | |
| Cyllid Seneddol Net | 13,190 | |
| | | **(18)** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2010** | | **(1,410)** |

# Adrodd Segmentol - Datganiad o gostau gweithredu yn ôl Nodau ac Amcanion Adrannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

**Nod: Codi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy:**

- arolygu sectorau darparwyr addysg; ac
- arolygiadau ac adolygiadau thematig

| | 2009-10 | | | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| | **Gros £000** | **Incwm £000** | **Net £000** | **Net £000** |
| **Amcanion gweithredu (Cynllun Corfforaethol Estyn 2009-2010)** | | | | |
| Rhaglen Weithgarwch Un: arolygu sectorau darparwyr addysg | 11,939 | (253) | 11,686 | 11,407 |
| Rhaglen Weithgarwch Dau: arolygiadau ac adolygiadau thematig | 1,509 | - | 1,509 | 1,386 |
| **Costau gweithredu net** | **13,448** | **(253)** | **13,195** | **12,793** |

D.S. Ni ellir nodi costau gweithredu ar wahân, ac felly maent wedi cael eu dosbarthu ar sail rhagdybiaethau cynllunio o ran dyrannu amser staff i waith penodol, h.y. rhaniad o 85%:15% yn y drefn honno, yn unol â Chynllun Corfforaethol Estyn.

Nid yw asedau Estyn ar wahân, ac felly ni ellir eu dosbarthu ar wahân i'r amcanion gweithredu.

Gweithgarwch Un yw prif swyddogaeth arolygu darparwyr addysg.
Gweithgarwch Dau yw'r gwaith cylch gwaith sy'n cael ei wneud ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2009-10 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae Estyn wedi dewis y polisi yr oedd yn ei farnu oedd y polisi mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Estyn. Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Estyn ar gyfer 2009-10 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn gofyn i Estyn baratoi dau brif ddatganiad ychwanegol. Mae'r Crynodeb o Alldro'r Adnoddau a nodiadau ategol yn dangos Alldro yn erbyn Amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net. Mae'r Datganiad o gostau gweithredu yn ôl Nodau ac Amcanion Adrannol a nodiadau ategol yn dadansoddi incwm a gwariant Estyn yn ôl yr amcanion y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**1.1 Confensiwn cyfrifo**
Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, ac fe'u haddaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i Estyn.

**1.2 Eiddo, cyfarpar ac offer ac asedau anniriaethol**
Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod cost yr eitem(au) dros £1,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). Ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur, a'r gost adnewyddu gyfredol llai dibrisiant.

**1.3 Dibrisiant**
Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog trwy randaliadau cyfartal dros yr oes ddefnyddiol yr amcangyfrifir sydd ganddynt. Codir dibrisiant blwyddyn gyfan ym mlwyddyn prynu ased. Mae eu hoes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Offer TG | 3-5 mlynedd |
| • Dodrefn a Gosodiadau | 5 mlynedd |
| • Offer Swyddfa | 5 mlynedd |
| • Systemau TG | 5 mlynedd |
| • Asedau Anniriaethol | 3 blynedd |

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o'r Costau Gweithredu yn y flwyddyn y digwyddodd.

**1.4 Darpariaethau**
Caiff darpariaethau eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy'n debygol neu'n sicr o godi ond nad yw'r swm neu'r dyddiadau y byddant yn codi yn sicr. Caiff darpariaethau eu creu neu eu cynyddu trwy godi tâl ar wariant refeniw yn ystod y flwyddyn y cawsant eu creu. Pan eir i'r gwariant yn wirioneddol, codir tâl yn uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Caiff y darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn eu hystyried yn rhai byrdymor a'u mynegi yn ôl eu prisiau presennol h.y. heb eu disgowntio.

**1.5 Incwm Gweithredol**
Incwm gweithredol yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd (ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol) ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi cyfarwyddeb derbynebau sy'n caniatáu i Estyn gadw derbynebau felly.

**1.6 Gwariant gweinyddol**
Dadansoddir y Datganiad o'r Costau Gweithredu rhwng costau gweinyddol a chostau rhaglenni. Mae costau gweinyddol yn dangos costau gweithredu Estyn fel y'u diffinnir dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd ag incwm cysylltiedig.

### 1.7 Gwariant rhaglenni

Mae costau rhaglenni'n adlewyrchu treuliau sydd heb fod yn dreuliau gweinyddol gan Estyn. Taliadau i drydydd parti dan gontract ar gyfer gwaith arolygu yw'r rhain yn bennaf. Caiff unrhyw symiau sydd yn parhau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn am arolygiadau Tymor y Gwanwyn eu cynnwys dan gredydwyr. Caiff unrhyw gontractau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer arolygiadau sydd i'w cynnal yn y tymhorau ysgol dilynol eu datgelu fel ymrwymiadau yn y nodiadau i'r cyfrifon.

### 1.8 Tâl cyfalaf

Mae credyd, sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan Estyn, wedi'i gynnwys yn y costau gweithredu a'r costau rhaglenni. Mae'r credyd wedi'i gyfrifo yn ôl cyfradd safonol y llywodraeth o 3.5 y cant mewn termau real ar bob ased llai rhwymedigaethau, ac eithrio balansau arian parod a gedwir yn Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM.

### 1.9 Treth ar Werth

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau Estyn y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw'r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu fod TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

### 1.10 Pensiynau

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe'u disgrifir yn Nodyn 5. Nid yw elfennau buddion diffiniedig cynlluniau yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnol. Codir tâl ar y PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### 1.11 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol buddion sydd ar ben buddion arferol y PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo'r rhwymedigaeth yn codi.

### 1.12 Prydlesi gweithredu

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Datganiad o'r Costau Gweithredu mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

## 2 Mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf

| | Cronfa Gyffredinol £000 |
|---|---|
| Symudiad yn Ecwiti Trethdalwyr | |
| Ecwiti Trethdalwyr ar 31 Mawrth 2009 o dan GAAP | (1,222) |
| **Addasiadau ar gyfer:** | |
| Buddion Gweithwyr (IAS 19) 2007-08 | (139) |
| Buddion Gweithwyr (IAS 19) 2008-09 | (31) |
| **Cost weithredu net** | **(1,392)** |
| Symudiad mewn Cost Weithredu | |
| Cost weithredu net 2008-09 o dan GAAP y DU | (12,765) |
| Buddion Gweithwyr (IAS 19) 2008-09 | (31) |
| Cost Cyfalaf parthed: buddion gweithwyr (IAS 19) | 3 |
| **Cost weithredu net 2008-09 wedi'i hailddatgan o dan IFRS** | **(12,793)** |

### 2.1 Mabwysiadu ailddatganiad IFRS am y tro cyntaf o'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Wrth fabwysiadu'r IFRS am y tro cyntaf, mae'n ofynnol i Estyn baratoi tri Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a nodiadau ategol ar sail IFRS. Mae'r Datganiadau gofynnol ar y Sefyllfa Ariannol isod.

Nid yw'r nodiadau wedi bod yn fanwl gan fod yr un symudiadau yn ymwneud â newidiadau mewn masnach a symiau taladwy eraill sydd, o ganlyniad i fabwysiadu'r IFRS, wedi cynyddu £170,000 ar 31 Mawrth 2009 a £139,000 ar 1 Ebrill 2008.

| | **31 Mawrth 2010** | **31 Mawrth 2009** | **1 Ebrill 2008** |
|---|---|---|---|
| Asedau nad ydynt yn gyfredol | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 177 | 553 | 684 |
| Asedau anniriaethol | 66 | 11 | 5 |
| **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | **243** | **564** | **689** |
| Asedau cyfredol | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 512 | 491 | 409 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 790 | 52 | 439 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | **1,302** | **543** | **848** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | |
| Rhwymedigaethau cyfredol | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | (2,604) | (2,362) | (2,192) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | **(2,604)** | **(2,362)** | **(2,192)** |
| Asedau nad ydynt yn gyfredol gyda/heb asedau/ rhwymedigaethau cyfredol net | **(1,059)** | **(1,255)** | **(655)** |
| Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol | | | |
| Darpariaethau | (351) | (137) | (51) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | **(351)** | **(137)** | **(51)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **(1,410)** | **(1,392)** | **(706)** |
| Ecwiti trethdalwyr | | | |
| Cronfa gyffredinol | **(1,410)** | **(1,392)** | **(706)** |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | **(1,410)** | **(1,392)** | **(706)** |

## 3 Cysoni alldro adnoddau net i gost weithredu net

| | **2009-10 £000** | 2008-09 £000 |
|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | **13,195** | 12,793 |
| **Cost weithredu net** | **13,195** | 12,793 |

Mae'r alldro adnoddau net yn cynrychioli gofyniad adnoddau net Estyn ar gyfer y flwyddyn yn erbyn yr Amcangyfrif. Y gost weithredu net yw cyfanswm y gwariant a'r incwm sy'n ymddangos yn y Datganiad o Gostau Gweithredu.

### 3.1 Alldro yn erbyn y gyllideb weinyddu derfynol

| | Nodyn | Amcangyfrif 2009-10 £000 | **Alldro 2009-10** £000 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Weinyddu Gros | 6 | 2,135 | 2,023 | 1,967 |
| Incwm Gweinyddu | 8 | - | (248) | (216) |
| **Cyfanswm net alldro adnoddau** | | **2,135** | **1,775** | **1,751** |

### 3.2 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net yn ôl adran

| | Nodyn | Amcangyfrif 2009-10 £000 | **Alldro Net 2009-10** £000 | Alldro Net o'i gymharu gydag Amcangyfrif | 2008-09 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 5 | 7,392 | 7,358 | (34) | 6,879 |
| Gweinyddu cyffredinol | 6 | 2,135 | 1,775 | (360) | 1,751 |
| Rhaglen | 7 | 4,689 | 3,625 | (1,064) | 3,798 |
| Cost Cyfalaf | | 34 | (13) | (47) | (43) |
| Dibrisiant | 9&10 | 342 | 450 | 108 | 408 |
| **Cyfanswm net alldro adnoddau** | | **14,592** | **13,195** | **1,397** | **12,793** |

Esboniad bras o'r prif amrywiannau:
Mae gwariant rhaglenni yn ymwneud yn bennaf ag arolygiadau ysgol wedi'u contractio yn allanol, y mae eu costau cyfartalog wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Cronnwyd arbedion ychwanegol yn sgil gostyngiad yn nifer yr arolygiadau gwirioneddol yn erbyn arolygiadau cynlluniedig o ganlyniad i gau ac uno ysgolion.

# 4 Cysoni alldro adnoddau net yn ôl gofyniad arian parod net

| | Nodyn | Amcangyfrif<br>£000 | **Alldro 2009-10**<br>£000 | Alldro o'i gymharu ag arbediad/ (ychwanegiad) Amcan<br>£000 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm net alldro adnoddau | | 14,592 | 13,195 | (1,397) | 12,793 |
| Caffael eiddo, cyfarpar ac offer | 9&10 | 445 | 129 | (316) | 283 |
| *Addasiadau croniadau:* | | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | | (376) | (437) | (61) | (451) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | - | (221) | (221) | (88) |
| Defnyddio darpariaeth | 15 | - | (85) | (85) | - |
| **Gofyniad arian parod net** | | **14,661** | **12,581** | **(2,080)** | **12,537** |

## 5 Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Mae costau staff yn cynnwys:

| | Cyfan-swm 2009-10 £000oedd | Staff wedi'u Cyflogi'n Barhaol | Eraill | 2008-2009 £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 4,686 | 4,686 | | 4,543 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 447 | 447 | | 416 |
| Costau pensiwn eraill | 990 | 990 | | 1,008 |
| **Cyfanswm Costau Net** | 6,123 | 6,123 | | 5,967 |
| Ynghyd â: | | | | |
| Secondeion i Mewn | 763 | | 763 | 788 |
| Secondeion Allan | (87) | | (87) | (87) |
| Staff Asiantaeth | 303 | | 303 | 211 |
| Taliadau iawndal | 42 | 42 | | - |
| Costau ymadael yn gynnar - mewn blwyddyn | 115 | 115 | | - |
| Costau ymadael yn gynnar - darpariaeth | 99 | 99 | | - |
| **Cyfanswm** | **7,358** | **6,379** | **879** | **6,879** |

Rhoddwyd tâl iawndal i un unigolyn o dan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS) - gweler yr Adroddiad ar Gyflogau am fanylion.

Mae'r PCSPS yn gynllun budd diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei ariannu, ond nid yw Estyn yn gallu nodi'i gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2007. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (http://www.civilservice-pensions.gov.uk/).

Ar gyfer 2009-10, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £990,000 yn daladwy i'r PCSPS (2008-09 £1,008,000) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 17.1% i 25.5% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun. Mae cyfraddau'r cyfraniadau'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun. Nid oes gan Estyn unrhyw Gyfrifon Pensiwn Partneriaeth.

Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Niferoedd Staff Parhaol | Cost Staff Parhaol £000oedd | Niferoedd Staff Eraill | Cost Staff Eraill £000oedd | 2009-10 | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1** | 81 | 5,439 | 14 | 806 | 95 | 93 |
| **Amcan 2** | 14 | 940 | 3 | 173 | 17 | 17 |
| **Cyfanswm niferoedd** | **95** | **6,379** | **17** | **979** | **112** | **110** |

Gwnaed dosbarthiad o gyfanswm niferoedd y staff i amcanion trwy gyfeirio at yr amser cymharol a dreulir gan staff yn Estyn ar weithgareddau craidd.

## 6 Costau gweinyddol eraill

| | 2009-10 £000 | 2008-2009 £000 |
|---|---|---|
| Rhentu dan brydlesi gweithredu:- llogi llungopïwyr | 7 | 7 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredu:- adeiladau | 342 | 359 |
| Costau adeiladau eraill | 346 | 328 |
| TG a thelathrebu | 367 | 275 |
| Gwasanaethau canolog Llywodraeth Cynulliad Cymru | 8 | 34 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | 291 | 377 |
| Tâl yr archwilydd - archwilio'r cyfrifon | 40 | 24 |
| Gwariant arall | 422 | 477 |
| Eitemau heblaw am arian parod: | | |
| - gwarged/diffyg ar waredu eiddo, cyfarpar ac offer | - | - |
| - darpariaeth ar gyfer costau adnewyddu adeiladau | 200 | 1 |
| - darpariaeth ar gyfer costau adleoli staff | | 85 |
| | **2,023** | **1,967** |
| Llai: Incwm gweithredu (Nodyn 8) | **(248)** | **(216)** |
| | **1,775** | **1,751** |

## 7 Costau rhaglenni

| | 2009-10 £000 | 2008-2009 £000 |
|---|---|---|
| **Gwariant cyfredol** | | |
| Arolygiadau addysg ôl-16 a chostau cysylltiedig | 249 | 343 |
| Arolygiadau ysgolion a chostau cysylltiedig | 2,656 | 2,770 |
| Arolygiadau Awdurdod Addysg Lleol a chostau cysylltiedig[3] | 226 | 218 |
| Costau cylch gwaith | 33 | 44 |
| Costau rhaglen cyffredin | 466 | 427 |
| | **3,630** | **3,802** |
| Llai: incwm rhaglenni (Nodyn 8) | **(5)** | **(4)** |
| Costau Rhaglen Net | **3,625** | **3,798** |

[3] Yn cynnwys taliadau a wnaed i archwilydd allanol Estyn o ran gwaith arolygu ar y cyd, h.y. taliadau o ran gwasanaethau heblaw gwasanaethau archwilio, yn gwneud cyfanswm o £158,000 (2009-2010) a £146,000 (2008-2009).

## 8 Incwm

| | 2009-10 £000 | 2008-2009 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm rhaglenni** | | |
| - ffioedd cofrestru | 5 | 4 |
| **Incwm gweinyddu** | | |
| - ailgodi tâl am waith arolygu* | 247 | 214 |
| - amrywiol | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **253** | **220** |

Gan fod swm yr incwm a geir o ffïoedd cofrestru yn fychan ac y gall amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, caiff ei eithrio o ffigurau'r Amcangyfrif yn y Crynodeb o Alldro'r Adnoddau.

*Incwm i'w dderbyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) o dan delerau Memorandwm Dealltwriaeth rhwng Estyn a DWP mewn perthynas ag arolygu rhaglenni dysgu yn y gwaith yng Nghymru.

## 9 Eiddo, Cyfarpar ac Offer

| | Systemau TG £000 | Offer TG £000 | Dodrefn a Gosodia-dau £000 | Offer Swyddfa £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 1,589 | 385 | 325 | 90 | 2,389 |
| Ychwanegiadau | - | 34 | 4 | | 38 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **1,589** | **419** | **329** | **90** | **2,427** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 1,153 | 297 | 316 | 70 | 1,836 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 318 | 75 | 4 | 17 | 414 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **1,471** | **372** | **320** | **87** | **2,250** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **118** | **47** | **9** | **3** | **177** |
| Ar 1 Ebrill 2009 | **436** | **88** | **9** | **20** | **553** |

Nodyn: Mae credydwyr cyfalaf o £2,000 wedi'u cynnwys yng nghyfanswm yr Ychwanegiadau ar gyfer 2009-10.

## 10 Asedau Anniriaethol

| | Meddalwedd £000 | DVD £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2009** | 19 | - | 19 |
| **Ychwanegiadau** | - | 91 | 91 |
| **Gwarediadau** | - | | - |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **19** | **91** | **110** |
| **Dibrisiant** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2009** | 8 | | 8 |
| **Codwyd yn y flwyddyn** | 5 | 31 | 36 |
| **Gwarediadau** | - | | - |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **13** | **31** | **44** |
| **Gwerth llyfr net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **6** | **60** | **66** |
| **Ar 1 Ebrill 2009** | **11** | **-** | **11** |

Nodyn: Mae credydwyr cyfalaf o £91,000 wedi'u cynnwys yng nghyfanswm yr Ychwanegiadau ar gyfer 2009-10.

## 11 Offerynnau Ariannol

Er bod Estyn yn derbyn ei arian trwy LlCC ac nid trwy'r amcangyfrifon cyflenwi arferol, mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer etiemau nad ydynt yn rhai ariannol yn unol â'u gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, ac felly mae Estyn yn agored i ychydig iawn o berygl o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad. Nid yw Estyn yn dal offerynnau ariannol sy'n gymhleth neu sy'n chwarae rôl tymor canolig i dymor hir ym mhroffil risg ariannol Estyn.

### Risg Hylifedd

Mae Estyn yn dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ei ofynion adnoddau ac nid yw felly'n agored i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg o ran Cyfradd Llog neu Arian Tramor

Nid yw Estyn yn dal unrhyw adneuon perthnasol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau yn cael eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu risg o ran arian tramor.

## 12 Symiau derbyniadwy masnach ac asedau cyfredol eraill

### 12a Dadansoddiad yn ôl Math

| | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau derbyniadwy masnach | 141 | 214 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 93 | 106 |
| Trethi | 0 | 21 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 278 | 150 |
| | **512** | **491** |

### 12b Balansau Rhyng-lywodraeth

| | Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | |
|---|---|---|
| | **Ar 31 Mawrth 2010 £000** | **Ar 31 Mawrth 2009 £000** |
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | 229 | 334 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | 147 | - |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 136 | 157 |
| **Cyfanswm** | **512** | **491** |

### 13 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 52 | 439 |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod net | 738 | (387) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **790** | **52** |

Mae Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM (OPG) yn darparu gwasanaeth bancio cyfrif cyfredol. Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal ar 31 Mawrth:

| | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|
| Balansau yn yr OPG | 790 | 37 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | - | 15 |
| | **790** | **52** |

## 14 Credydwyr Masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

### 14a Dadansoddiad yn ôl math

| | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|
| Cyfansymiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Symiau taladwy masnach | 603 | 401 |
| Symiau taladwy eraill | - | 1 |
| Cyllid Cyflogres | 1,247 | 682 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 754 | 1,278 |
| | **2,604** | **2,362** |

### 14b Balansau Rhyng-lywodraeth

| | Ar 31 Mawrth 2010 £000 | Ar 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | 1,020 | 757 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | 133 | 147 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 1,451 | 1,458 |
| **Cyfanswm** | **2,604** | **2,362** |

## 15 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

**Adnewyddu adeiladau:** Rhwymedigaethau sy'n codi ar gyfer adfer eiddo wedi'i brydlesu i'w gyflwr gwreiddiol adeg terfynu prydles.

**Adleoli:** Rhwymedigaeth yn ymwneud â thalu costau adleoli staff a benodir i Estyn yn barhaol

**Ymadael yn Gynnar:** Rhwymedigaethau i dalu costau pensiwn staff y dyfodol sy'n gadael Estyn o dan gynllun ymddeoliad cynnar y Gwasanaeth Sifil

| | Adnewyddu Adeiladau £000 | Adleoli £000 | Ymadael yn Gynnar £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2009 | 52 | 85 | | 137 |
| Cynnydd mewn darpariaeth | 200 | - | 99 | 299 |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | 85 | | (85) |
| | **252** | **-** | **99** | **351** |

## 16 Nodiadau i'r Datganiad o Gostau Gweithredu yn ôl Amcanion Strategol Adrannol

Caiff costau rhaglen sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phob amcan eu dyrannu'n briodol ac fe gaiff yr holl gostau eraill eu priodoli ar sail canran amcangyfrif o amser staff a neilltuir ar gyfer gweithgareddau sy'n cefnogi pob amcan.

## 17 Ymrwymiadau Cyfalaf

Nid oes unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2010.

## 18 Ymrwymiadau o dan brydlesi

**Prydlesi Gweithredol**

| | **2009-2010 £000** | | 2008-2009 £000 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| Ar 31 Mawrth 2009 ymrwymodd Estyn i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf mewn perthynas â phrydlesi gweithredu yn dod i ben: | | | | |
| - cyn pen blwyddyn | 290 | 2 | - | 1 |
| - rhwng dwy a phum mlynedd | | | 358 | 6 |
| - ar ôl pum mlynedd | - | - | - | - |
| | **290** | **2** | **358** | **7** |

## 19 Ymrwymiadau eraill

Mae Estyn wedi cytuno ar gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredu) gwerth £727,915 ar 31 Mawrth 2010.

## 20 Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2010.

## 21 Trafodion Partïon Cysylltiedig

Bu nifer fach o drafodion perthnasol yn ystod y flwyddyn rhwng Estyn a Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau canlynol y Llywodraeth yr ystyrir eu bod yn bartïon cysylltiedig:

- Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Hefyd, yn ystod y flwyddyn, talwyd swm o £17,000 i gostau gweithredol mewn perthynas â chostau adleoli ar gyfer y Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru blaenorol. Mae'r swm uchod ar ben y cyfanswm o £165,000 a dalwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae tua hanner o'r holl gostau yn ymwneud â cholli gwerthiant eiddo. Gwnaed y taliadau uchod am gostau adleoli o dan Gynllun Adleoli Staff Uwch y Gwasanaeth Sifil a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhwn o'r pecyn recriwtio ar gyfer y penodiad hwn.

Heblaw'r trafodion uchod, ni ymgymerodd unrhyw aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na phartïon cysylltiedig eraill ag unrhyw drafodion perthnasol gydag Estyn yn ystod y flwyddyn.

## 22 Digwyddiadau ôl-fantolen

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.